www.ecorwyddfa.co.uk

# ECO'r Wyddfa

£1


RHIF 498
Chwefror
2022

## Calon Werdd

Mae dathliadau cariadus Santes Dwynwen a Sant Ffolant yn sbardun i ymgyrch i dynnu sylw gwleidyddion at yr argyfwng hinsawdd sy'n wynebu ein planed.

Dangos Dy Gariad yw enw ymgyrch y Glymblaid Atal Anthrefn Hinsawdd; maen nhw'n gofyn i bobl ar hyd y byd i ymuno gan arddangos calon werdd yn eu ffenest neu mewn man cyhoeddus. Mae hyn er mwyn atgoffa'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau bod rhaid gweithredu go iawn ac yn gyflym i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur.

Mae llawer mwy gellid ei wneud dros fyd natur a'r hinsawdd wrth gwrs.




## Be sy'n digwydd ym mro'r Eco?

GwyrddNi: Mae'r mudiad newydd yma'n gweithio'n lleol i annog trafodaeth, addysgu a gweithredu dros yr amgylchedd. Mae eu hwylusydd Lowri Hedd Vaughan yn galw am wirfoddolwyr i greu cynulliad lleol er mwyn trafod syniadau. Cysylltwch â hi: lowri@deg.cymru

Codi sbwriel: mae sawl grŵp yn lleol yn cwrdd i godi sbwriel – mae'n drist fod angen y ffasiwn beth ond dyma lun gan Gynghorydd Llanrug, Beca Brown o'r sbwriel wnaeth hi ei godi ar Lôn Groes yn y pentref ganol mis Ionawr.



Antur Waunfawr: Mae'r Antur wedi bod ar flaen y gad ers blynyddoedd wrth greu cyfleoedd ailgylchu ac ailddefnyddio yn lleol drwy'r Warws Werdd a Chaergylchu. Bellach mae Beics Antur yn trwsio beiciau yn ogystal â'u llogi ym Mhorth yr Aur, Caernarfon gan hybu dull teithio di-garbon.



Ynni Padarn Peris: Dyma gynllun ynni adnewyddadwy cynaliadwy sy'n defnyddio pŵer dŵr i greu trydan. Defnyddir yr egni gan y gymuned leol ac mae unrhyw drydan sydd dros ben yn cael ei werthu a'r elw'n dod yn ôl i drigolion yr ardal ar ffurf grantiau cymunedol.

Cynllun natur: mae sawl grŵp lleol yn plannu coed a blodau ac un cynllun sy'n derbyn cefnogaeth Cyngor Gwynedd ac Adra yn gobeithio creu llecynnau ym mhob pentref i drigolion eu mwynhau a gofalu drostynt.

Cofiwch, mae ymgyrch Dangos Dy Gariad yn galw arnom i ddefnyddio pwer calonnau gwyrdd i ddangos i'r bobl mewn grym mai mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd yw'r frwydr sy'n uno pawb. Ond o fewn dyffrynnoedd Peris a Gwyrfai, mae grym ganddon ni i greu newid er gwell.

Elin Enfys

**Chwilio am Elin Enfys**

**Ble mae Elin Enfys? Dewch o hyd iddi'n cuddio mewn 8 lle yn y papur.**



## Yn y rhifyn hwn:

Cais am help i ddarganfod aelodau cyntaf Urdd Gobaith Cymru 10

Carfan pêl-droed dan 10 oed Bethel 27

Gaeaf Llawn Lles a Llyfrau 20







www.ecorwyddfa.co.uk

ECO'r Wyddfa



## SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith**
Tony Elliott
Bwlch Cae Mawr, Deiniolen LL55 3LU.
07798 552238.
tonyelliott17@yahoo.com

**Golygydd Chwaraeon**
Richard Ll Jones
5 Y Ddôl, Bethel. 01248 670115.
richard.llwyd@yahoo.co.uk

**Golygydd yr Ifanc**
Marged Rhys
marged_3@hotmail.com

**Ffotograffydd**
Gwyndaf Hughes
Hafan, Ffordd Glanmoelyn, Llanrug.
01286 672221.
glasgoed@hotmail.com

**Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu**
Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug. 01286 673838.
hefsj@aol.com

**Trefnydd Ariannol**
Goronwy Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

**Trefnydd Gwerthiant Post**
Olwen Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

**Trefnydd Bwndelu**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig.
01286 870292.

**Dylunydd**
Elgan Griffiths
post@elgangriffiths.com

## GOHEBWYR PENTREFI

**Bethel**:
Richard Ll Jones
5 Y Ddôl, Bethel. 01248 670115.
richard.llwyd@yahoo.co.uk

**Brynrefail:**
Lowri Prys Roberts
Godre'r Coed, Brynrefail. 01286 870580.
lowri-prys@supanet.com

**Caeathro:**
Lowri Ceiriog
4 Erw Wen, Caeathro.
lowriceiriog@hotmail.co.uk

**Deiniolen:**
Nia Gruffudd
3 Hafod, Clwt y Bont. 01286 870394.
glyn.gruffudd@btinternet.com

**Dinorwig:**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 01286 870292.

**Llanberis:**
Eifion Roberts
Swn y Gwynt, Llanberis. 01286 870740.
eifionroberts132@btinternet.com

**Llanrug:**
Eryl Roberts.
Peris, 56 Glanffynnon, Llanrug.
01286 675384.

**Nant Peris:**
Kate Pritchard
01286 870189.
econantperis@hotmail.com

**Penisarwaun:**
ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

**Waunfawr:**
Iola Gruffydd
iolallew@hotmail.co.uk


## Panel Golygyddol

Anfonwch eich straeon, newyddion, erthyglau a lluniau ar e-bost at ecorwyddfa@gmail.com os gwelwch yn dda, neu newyddion pentref yn uniongyrchol at y Gohebwyr Pentrefi isod.

Rydym yn croesawu erthyglau hyd at 600 gair o hyd ac mae angen anfon unrhyw luniau atom fel ffeiliau ar wahân. Os hoffech drafod eich cynnwys, mae croeso i chi gysylltu â Nesta Elliott ar 07825 586658

## Rhoddion

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

**£5** **Dorothy Jones, Brynrefail.**


**£10** **Mrs Eurwen Roberts, 47 Rhydfadog, Deiniolen.**
**Mrs A J Owen (Nan) gynt o Rhydfadog, Deiniolen.**
**Iris Rowlands, Glanrafon, Cwm-y-glo.**
**Teulu Thomas Hughes, Hafan Elan.**

**£20** **Mrs Hilda Oritt, Morannedd, Cwm-y-glo.**

**£30** **Mair Davies, Brynrefail.**

**£50** **Er cof am ddyn arbennig iawn, Gwyn Parri, gan Annette a'r teulu.**
**Rhian a'r teulu, Nant Peris er cof am Meirion Wyn Pritchard.**

**£2,000 - Capel Bozra, Penisarwaun.**




## Llythyr

Annwyl Syr/Madam,
**Yng: Ymgynghoriad Cyhoeddus Canllaw Cynllunio Atodol:**
Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd-Orllewin Cymru

(DRAFFT YMGYNGHOROL)
Yn dilyn yr arysgrif llwyddiannus o Dirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru fel Safle Treftadaeth y Byd, mae Cyngor Gwynedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi paratoi Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) ar y cyd. Mae'r CCA Drafft yn rhoi arweiniad ac yn amlygu'r ystyriaethau cynllunio perthnasol wrth lunio ac asesu ceisiadau cynllunio sydd wedi eu lleoli o fewn neu yn effeithio ar osodiad y Safle Treftadaeth y Byd. Dylai'r Canllaw hwn, felly, roi mwy o sicrwydd i ymgeiswyr, a'u helpu i baratoi ceisiadau cynllunio addas i'w cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio.

Mae Cyngor Gwynedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn dymuno derbyn eich barn chi ynglŷn â'r CCA (enwir uchod) sydd yn destun cyfnod ymgynghori cyhoeddus ar hyn o bryd. Fe fydd y cyfnod ymgynghori cyhoeddus yn cychwyn ar **15fed Rhagfyr 2021 hyd at 4yh ar 9fed Chwefror 2022**.

Mae posib archwilio'r CCA sydd yn destun yr ymgynghoriad cyhoeddus oddi ar wefan Cyngor Gwynedd a gwefan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (http://www.gwynedd.llyw.cymru/cca neu https://www.eryri.llyw.cymru/planning/planning policy/Supp-Planning-Guidance/supplementary

Mae copïau papur hefyd ar gael i'w archwilio yn Siop Gwynedd (Caernarfon, Pwllheli, Dolgellau), yn ogystal â'r llyfrgelloedd lleol sydd wedi'u lleoli yng Ngwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri.

I ymateb i'r ymgynghoriad hwn:

Mae yna ffurflen electroneg ar gael i'w llenwi ar-lein neu gallwch lawrlwytho copïau oddi ar y wefan. Fel arall, gallwch gael gopïau papur drwy e-bostio polisicynllunio@gwynedd.llyw.cymru.

Os ydych yn dymuno derbyn gwybodaeth bellach ynglŷn â'r broses ymgynghoriad cyhoeddus cysylltwch ag un o'r Timau Polisi Cynllunio gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod.

Yn gywir
**Rebeca Angharad Jones**
Rheolwr Cynllunio (Polisi) –
Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd
(01766) 771000
polisicynllunio@gwynedd.llyw.cymru

**Elen Mererid Osmond Hughes**
Swyddog Polisi Cynllunio –
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
(01766) 770274
polisi.cynllunio@eryri.llyw.cymru

## Dyddiadau i'w cofio...

| Rhifyn | Dyddiad cau derbyn cynnwys (ail ddydd Gwener yn y mis) | Dyddiad cyhoeddi (pedwerydd dydd Gwener yn y mis) |
|---|---|---|
| Mawrth | 11 Chwefror | 25 Chwefror |
| Ebrill | 11 Mawrth | 25 Mawrth |
| Mai | 8 Ebrill | 22 Ebrill |

# Yn ystod y mis aeth heibio...

- **Modrwy**. Collodd Peggy McSween o Ynys Benbecula yn yr Alban ei modrwy briodas wrth blannu tatws dros hanner can mlynedd yn ôl. Ddiwedd Rhagfyr y llynedd cafodd Peggy, sydd bellach yn 86 oed, ei modrwy yn ôl wedi i ddyn lleol ei darganfod gydag archwilydd metel.
- **Batman** (ond nid Robin). Cafodd batman ei ddarganfod yn Nhwrci wedi absenoldeb o hanner can mlynedd, sef pysgodyn bychan melyn gyda streipiau brown, llai na 4 cm o hyd. Credid ei fod wedi diflannu o ddwy o afonydd yn Nhwrci, sef Batman ac Amber.
- **Saga**. Mae'r cwmni wedi penderfynu rhoi wythnos o wyliau gyda thâl i unrhyw un o'i weithwyr sy'n dod yn nain neu'n daid. Credir mai hwn yw'r tro cyntaf i unrhyw gwmni neu sefydliad wneud hyn.
- **Glôb**. Prynwyd glôb am £150 mewn ocsiwn yng Nghymru. Gwerthwyd hi'n ddiweddarach am £116,000 i brynwr o America. Mae'r glôb yn dyddio o tua 1550, ac nid yw Awstralia wedi ei ddangos arni gan nad oedd neb o Ewrop wedi ei ddarganfod bryd hynny.
- **Adar**. Mae albwm o 'ganeuon' adar o Awstralia sydd mewn perygl o ddiflannu wedi gwerthu'n well na ffefrynnau Nadolig gan Michael Buble a Mariah Carey. Mae 53 o adar sydd dan fygythiad ar yr albwm, ac mae'r elw o'r gwerthiant yn cael ei gyflwyno i elusen Birdlife Australia.
- **Ŵy**. Darganfod ŵy dinosaur oedd ar fin deor yn China. Credir ei fod dros 66 miliwn blwydd oed.
- **Pantomeim**. Bydd yn bosib ennill gradd meistr mewn astudiaethau pantomeim ym Mhrifysgol Stafford o fis Medi eleni. (O na, fedrwch chi ddim! O medrwch mi fedrwch chi.)
- **Ffrwythau**. Yn ystod 2021, y ffrwyth a werthodd orau ym Mhrydain oedd mefus, gyda banana yn disgyn o'r brig i'r pedwerydd safle.
- **Joumou**. Dyna enw cawl traddodiadol Haiti, ac yn symbol o ennill eu hannibyniaeth yn 1804. Mae'n cael ei fwyta ar ddydd Calan, sef diwrnod annibyniaeth y wlad. Mae bellach wedi derbyn statws gwarchodaeth gan UNESCO.
- **Taith**. Erbyn i'r rhifyn hwn eich cyrraedd fe ddylai Telesgop James Webb – a lansiwyd ddydd Nadolig y llynedd – fod wedi cyrraedd pen ei daith, 330,000 o filltiroedd o'r ddaear.
- **162**. Bachgen 12 oed o Fryste yn sgorio 162 mewn prawf MENSA; y sgôr uchaf posib. Credir mai 160 oedd sgôr Albert Einstein.
- **Glas y dorlan**. Aderyn sy'n cael ei adnabod fel y *'belted kingfisher'* ac sy'n gyffredin iawn ar lynoedd gogledd America, yn cael ei ddarganfod ar afon Ribble yn Swydd Gaerhirfryn. Dim ond dair gwaith y cofnodwyd yr aderyn yng ngwledydd Prydain cyn hyn.
- **Strydoedd**. Athro o Glasgow yn ystod cyfnod y pandemig dros y ddwy flynedd ddiwethaf wedi rhedeg ar hyd pob stryd yn y ddinas – 1,400 o filltiroedd a 6,143 o strydoedd.
- **Arogl**. Pa arogl sy'n eich atgoffa chi o'ch plentyndod? Dyna'r cwestiwn a ofynnwyd mewn arolwg diweddar, a'r ateb a gyrhaeddodd frig y rhestr oedd arogl gwair wedi ei dorri, yn cael ei ddilyn gan arogl *crayons*.




# Ysgol Waunfawr

Bydd disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn astudio chwedlau fel rhan o'u thema y tymor hwn ac yn mynd ar deithiau i Feddgelert, Dinas Emrys a Llanddwyn.

**Cyfnod Sylfaen**



Mae'r plant wedi bod yn brysur yn chwarae rôl yn y siop ddillad. Dyma ddwy fodel del ddigon o sioe yn barod am y catwalk ym Mharis!

**Dawns i Bawb**
Bydd dosbarth Moel Eilio yn profi sesiynau dawnsio rhithiol y tymor hwn - edrychwn ymlaen i weld y perfformiadau.

**Urdd**
Mae Gethin o'r Urdd wedi ail-ddechrau sesiynau ar gyfer disgyblion yr ysgol. Byddem hefyd yn dathlu can mlwyddiant sefydlu'r Urdd mewn parti cyn hir gan obeithio fod yn rhan o ymdrech i dorri record byd o ran y parti mwyaf.

**Gwersi Piano**
Croeso i Sian Eirian atom i gynnig gwersi piano y tymor yma. Llongyfarchiadau mawr i Lois Eifion ar enedigaeth y babi newydd yn ddiweddar.

**Clwb Pêl-droed Y Bala**
Sesiynau yn parhau gyda Gethin y tymor hwn gan groesi bysedd y bydd y tywydd yn caniatau i'r plant fod allan yn yr awyr iach.

**Dringo**
Llongyfarchiadau i Owen Bl 5 am ei gamp dringo yn ddiweddar - cafodd ei ddewis i gynrychioli Prydain a bydd yn teithio i Iwerddon i gystadlu. Edrychwn ymlaen i gael mwy o hanes ganddo yn fuan.

# CAEATHRO

**Capel**
Ar y 6ed Chwefror, bydd Gwasanaeth dan arweiniad Nerys Anne Griffiths am 2:00pm. Ar yr 20fed Chwefror, bydd Gwasanaeth dan arweiniad y Parchedig Gwenda Richards a gweinyddir y Cymun yn ystod y Gwasanaeth hwn.

**Yn Y Ffrâm**
Pob lwc i un o gyn-drigolion y pentref, sef Richard Jones, wrth iddo gymryd rhan ar y rhaglen "Yn Y Ffrâm" ar S4C dros yr wythnosau nesaf. Mae Richard eisoes wedi dangos ei allu a'i ddawn fel ffotograffydd gyda'i dirluniau trawiadol o brydferthwch ardal Eryri a'i gofnod o briodasau niferus. Pob hwyl Richard!

# WAUNFAWR

**Diolchiadau**: Dymuna Garry, Nia a'r hogia ddiolch yn fawr i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am bob cefnogaeth a chymorth tra bu Garry yn yr ysbyty. Diolch o waelod calon i staff ward Aran ac uned gofal dwys Enlli Ysbyty Gwynedd am eu gofal arbennig o Garry wrth gwffio'r Covid 19. Diolch i holl staff Meddygfa Waunfawr am eich cymorth a gofal parhaus.

**Llongyfarchiadau** i Mared a John, Ty Anelog ar enedigaeth merch fach – Lia. Mae Lia yn wyres gyntaf i Shoned ac yn or-wyres gyntaf i Nan. Croeso cynnes i chdi Lia fach a dymuniadau gorau i chi fel teulu.

**Dymuniadau gorau** – am wellhad llwyr a buan i bawb o'r pentrefwyr sydd wedi bod yn yr ysbyty neu ddim yn dda yn ddiweddar, gan gynnwys Pat Parry, Ffridd Felan, Gladys Greasley, Minafon, Joanne Greasley, Stad Croesywaun, Duncan Brown, Gwelfor a Heulwen Jones, Hafod y Rhug Uchaf. Cofion cynnes atoch i gyd.

**Profedigaeth**: Estynnwn ein cydymdeimlad â Nia, Dafydd, Ioan, Elan a Bela, Dwyfor ar golli tad, tad yng nghyfraith a thaid annwyl.

Hefyd rydym yn cydymdeimlo â Wil Coles, Bro Waun a'i chwaer Ann, Ael y Bryn, wedi iddynt golli eu brawd Walter.

**Apêl am Newyddion** – gyda gweithgareddau cymdeithasol arferol y pentref, a phob pentref arall, wedi dod i ben dros dro o ganlyniad i Cofid, mae'n dipyn o gur pen sut i lenwi colofn fisol gyda 'newyddion'! Dywedodd un pentrefwr anhysbys yr arferai greu ambell stori ffug pan oedd yn gohebu i bapur bro arall flynyddoedd yn ôl, ar adegau pan oedd hi'n fain am newyddion arno. Felly gwyliwch bentrefwyr Waunfawr – anfonwch newyddion go iawn i mi, neu does wybod be fyddwch yn ei ddarllen amdanoch mewn print!

**Carnifal Waunfawr 1953**: Diwrnod difyr iawn oedd diwrnod Carnifal ym mhob pentref ers talwm, a doedd Waunfawr ddim yn eithriad**.** Diolch i Gwilym Morris Jones (Mois) am y llun. Yr enwog Geoff Charles oedd yn ffotograffydd i'r Cymro ar y pryd, dynnodd y llun, ac fel hyn yr adroddodd y 'Caernarvon and Denbigh Herald' am y diwrnod:

CAERNARVON & DENBIGH HERALD
May 29. 1953.

WAENFAWR.
At Waenfawr the main celebrations will take place tomorrow (Saturday 30). The fancy dress competition will be judged at Gallt-y-Bont, at 1.30, and then a procession headed by the Deiniolen Silver Band will proceed via Croesywaen to the school. A tea party has been arranged for all local children at 4 o'clock, and at 6 o'clock the old age pensioners will have their party. In the event of the weather being unfavourable judging will take place at the Church Hall.

* * *

**CAERNARVON & DENBIGH HERALD.**
June 5. 1953

**CORONATION WINNERS.**
The following were the winners in the fancy dress competitions on Saturday, (Mai 30ain). Best Nursery Rhyme or Fairy Tale character under 8 years of age.

* * *

1 Gwilym Morris Jones: Penrhos: (Bachgen Bach o Dincer).
2 Sian Williams: Bryn Têg: (Queen of Hearts).
3 Clive Cotton: Post Office.

* * *

**BEST FICTIONAL or HISTORICAL CHARACTER.**
1 Rhiannon James: Mor Awel.
2 Eryl Vaughan Jones: Bryn Derwen.
3 Gillian Miles: Trefeddyg.

* * *

**BEST NATIONAL COSTUME. 12-16 years.**
1 Elizabeth Miles: Trefeddyg.
2 Gwenda Lloyd Jones: Gwyndy.
3 Rhiannon Rowlands: 6. Ael-y-Bryn.

* * *

**BEST ADVERTISEMENT COSTUME, OPEN.**
1 Pat Perkins: Ffridd Felen.

* * *

**BEST COMIC COSTUME.**
1 William Lloyd Jones: Cefn Du Terrace. (Old Mother Hubbard).

* * *

**BEST DECORATED BICYCLE.**
1 Bryn Jones: Coed Gwydryn.

* * *

**BEST DECORATED VEHICLE.**
1 Emrys Lloyd Hughes and party: Gwastadfaes. (Tractor Fordson Major a threlar yn cario nifer o gymeriadau lliwgar).

Dyma atgofion Duncan Brown o'r diwrnod: 'Dwi'n cofio'r diwrnod fel tasai'n ddoe! Roeddwn wedi fy ngwisgo fel un o'r 'Three little pigs' a'r wisg wedi ei chreu allan o... hen flwmar PINC fy nain oedd yn byw efo ni ym Mhenybont. Y fath gywilydd! Y rhan fwyaf o'r hogia wedi eu gwisgo fel Robin Hwd, Cowbois... a finna fel mochyn pinc yn blwmars nain. Doniol? Ddim i mi! Ac i neud pethau yn waeth, mi wisgodd fy mam Alison (fy chwaer) fel Nel Gwyn-heb yn wybod mai putain oedd Nel Gwyn! '

A dyma atgofion Mois am y diwrnod:
'Yn dilyn y feirniadaeth, cludwyd y cystadleuwyr o amgylch y pentref ar loriau tri o fasnachwyr glo'r ardal, sef, Robin Ellis Jones, Rhoslan, Gwilym Lloyd Jones, Hafan a Robin Lewis Parry, Teras Eilian. Arweiniwyd yr orymdaith gan Seindorf Arian Deiniolen a gwelwyd nifer o'r trigolion wedi ymgasglu ar hyd y ffordd yn chwifio eu cadachau poced yn yr awyr wrth iddynt fynd heibio. Daeth yr orymdaith i'w therfyn ar fuarth yr ysgol pryd cynhaliwyd seremoni'r gwobrwyo.

Cofiaf fel roedd fy mam wedi fy ngwisgo fel y 'Bachgen bach o dincer', gyda geiriau'r pennill ar gerdyn am fy ngwddf.

Bachgen bach o dincer
Yn crwydro ar hyd y wlad,
Cario'i dwls yn dacla,
Gwneud ei waith yn rhad,
Yn ei law roedd haearn
Ac ar ei gefn roedd bocs,
Pwt o getyn yn ei geg,
A than ei drwyn roedd locs.

Minnau'n 5 oed ac yn ddigon ffodus o ennill y wobr gyntaf yn y gystadleuaeth dan 8 oed. A'r wobr fawr? 'Ice loli' oren!

Mae'n anodd credu mai carnifal i ddathlu coroni'r Frenhines oedd hwn. Rhywbeth mae'n debyg na fuasai'n gweddu o gwbl yn y Weun y dyddiau yma. Clywais ddweud fel roedd nifer fawr o bobl wedi hel i'r Festri yng Nghroesywaun i wylio seremoni'r Coroni ar deledu bychan. ("Bocs llun!"), un a fenthycwyd o siop E. Bennet. Williams. Stryd y Plas, Caernarfon.

Ni chynhaliwyd carnifal yn y Weun wedyn hyd y flwyddyn 1958.'

Croesawir atgofion gan eraill oedd yno ar gyfer rhifyn nesa'r Eco os hoffech eu hanfon ataf.






# Damwain erchyll Clogwyn Coch 'Gwneud y peth iawn'

Union hanner canrif yn ôl i'r ugeinfed o'r mis yma fe ddigwyddodd un o'r damweiniau mwyaf erchyll a welwyd ar yr Wyddfa pan gollodd tri bachgen eu bywydau wrth groesi Clogwyn Coch

Yn yr haf nid yw Clogwyn Coch mor serth â pheryglus, ond yn y gaeaf pan o dan orchudd o eira a rhew caled a'r coch wedi troi yn wyn mae'r clogwyn gyda'r man peryclaf ar yr Wyddfa. Yma hefyd dros y blynyddoedd ar union greigiau Du'r Arddu, y bu sawl damwain angeuol gan ddringwyr a oedd yn mwynhau'r clogwyni serth fel pleser ac nid i ennill eu bara menyn fel hen fwynwyr y gwaith copr yn y dyddiau a fu.

Dyma'r union fan ble ddigwyddodd y ddamwain fwyaf erchyll ar y mynydd pan laddwyd tri o fechgyn dwy ar bymtheg oed ar ddydd Sul 20fed Chwefror 1972. Cychwynnodd 19 o ddisgyblion a phedwar athro o ysgol fonedd Dulwich o Ben y Pass ar fenter hynod o beryglus gyda'r bwriad i gerdded pedol yr Wyddfa yn yr eira a'r rhew.

Wedi dringo a chroesi Crib Goch a Chrib y Ddysgl yn llwyddiannus penderfynwyd rhoi'r gorau i'r fenter wedi cyrraedd copa'r Wyddfa a throi yn ôl ar hyd llwybr Llanberis yn hytrach na dilyn y grib i gyfeiriad Lliwedd. Wrth gerdded ar draws y mynydd rhewllyd syrthiodd pedwar o'r bechgyn i ddyfnderoedd Clogwyn Coch ond rhywfodd fe ataliwyd llithriad bachgen arall lathenni oddi wrth y dibyn.

Er bod trigolion mynyddoedd Eryri yn gyfarwydd â damwain angeuol ar y mynyddoedd, roedd y digwyddiad yma, o bell, wedi syfrdanu'r holl ardal yn fwy nag un o'r gweddill. Roedd y syniad o arwain plant dibrofiad dros bedol yr Wyddfa yng nghanol tymor y gaeaf yn un anghyfrifol ac anghredadwy a dweud y lleiaf.

Yn dilyn y ddamwain, roedd yn amlwg nad oedd athrawon yr ysgol yn fynyddwyr profiadol, er i un o'r arweinwyr gael ei ddyfynnu yn y '*Daily Mail*' yn dweud, *'I know these mountains well enough to be confident that what we were doing was quite reasonable'.* Mae'n berffaith amlwg nad oedd yr arweinydd yn adnabod y mynydd yn ddigon da gan mai dyma'r fan peryclaf oll ar yr Wyddfa yn ystod y gaeaf. Syndod hefyd oedd y ffaith fod y bechgyn yn arwain y grŵp pan ddigwyddodd y ddamwain. Nid oedd gan y criw unrhyw fath o offer mynyddig fel bwyelli rhew a chramponau ar gyfer y daith.

Ym mhapur y *Times* ar 22ain Chwefror 1972 dyfynnwyd dirprwy brifathro Coleg Dulwich fel a ganlyn:



*Mr F. R. Thomas, the school's deputy head, said parties of boys often went on similar expeditions. "Some of the boys who were climbing Snowdon were experienced, and have made a trip to Iceland to go climbing. They all had climbing experience. I have no doubt in my mind that the party was doing the right thing when the accident happened."*

Roedd ei honiad fod y bechgyn dwy ar bymtheg oed yn gwneud y peth iawn wrth groesi llethr o rew trwchus yn warthus ac yn amlwg yn dangos diffyg profiad a gwybodaeth gan ddirprwy brifathro yn Llundain am beryglon Clogwyn Coch yng nghanol gaeaf. Nid oedd gan unrhyw un o'r pedwar athro, yn ôl y sôn, brofiad o fynydda dros rew ac eira ac roedd hyn yn amlwg yn yr achos gan nad oedd gan y plant yr offer angenrheidiol ar gyfer y fath fenter.

Roedd anfon disgyblion ar fenter mor beryglus yn un o bolisïau ysgolion bonedd Lloegr ar y pryd gyda'r bwriad o'u caledu ar gyfer y byd mawr! Erbyn heddiw mae yna reolau llym yn bodoli ar gyfer arweinwyr grwpiau ar y fath fenter, rheolau, gobeithio, a fydd yn sicrhau na fydd unrhyw daith beryglus gan griw dibrofiad, yn gallu digwydd eto.

**Ken Jones**

Yn amlwg, mae'r aflwydd yn dal yn ein plith. Brawychus oedd cofnodi fod yr ystadegau am ardal Bethel / Llanrug ymysg yr uchaf yng Ngwynedd. Mae arwyddion bellach fod y ffigyrau'n gostwng, ond yn sicr nid yw'n arwydd i ni ollwng yr hunan-ddisgyblaeth a rhoi'r gorau i ddilyn y canllawiau. Drwy gyd-dynnu a chyd-gynnal y down i weld eto 'haul ar fryn' gobeithio. I'r sawl sydd dal yn brin eu hiechyd, danfonwn ein cofion a'n dymuniadau am Flwyddyn Newydd Iachach i ni fel ardal.

**Merched y Wawr**

Cynhaliwyd cyfarfod Ionawr drwy gyfrwng Zoom ar 12fed Ionawr. Croesawyd pawb gan y Llywydd, Anne Elis, gan ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i bawb a nodi mor braf oedd cael cymaint o aelodau wedi ymuno ar y noson. Croesawyd Glenys Griffith atom o'i chartref yn Llanharan. Llongyfarchwyd Dewi a Hannah ar eu dyweddiad dros y Nadolig, ac estyn ein cofion at Siencyn.Wedi sgwrs gyda Gwyneth, Llain yr Ardd ac Elizabeth, Blaen Parc braf cofnodi fod y ddwy'n gobeithio ail ymuno â ni yn ystod y tymor. Anfonwyd cofion at Mabel, a derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Alys, Falmai a Jen.

Ein gwraig wâdd oedd Elen Lloyd, o Lanelidan ger Rhuthun: gwraig fferm a mam i bedair o ferched. Ar ôl graddio, cafodd gyfle i deithio'r byd, ac wedi dychwelyd adref cyfle i hyfforddi fel Hyfforddwr Iechyd a Llês Holistaidd.

Dangosodd Elen i ni sut i fyw a bwyta'n well trwy ddilyn cynghorion 'y 4 doctor' – Doctor Hapus, Doctor Distaw, Doctor Diet a Doctor Symud. Cafwyd awgrymiadau diddorol iawn ar sut i ymlacio cyn cysgu, cadw'r corff yn ystwyth, bwyta'r bwydydd gorau ar gyfer corff a meddwl iach. Dangosodd bwysigrwydd yfed dŵr – tua 2 litr y dydd, a phwysigrwydd bod allan yn yr awyr iach i gael y fitamin D.

Diolchwyd i Elen gan y Llywydd, a theimlwyd fod pawb wedi cael cyfle i feddwl am eu hanghenion nhw i wella ansawdd y corf a'r meddwl.

Diolchwyd i Freda, ein Swyddog Datblygu, am osod y Zoom i ni ac am ei chymorth parod o hyd.

Soniwyd am y Cwrs Crefft, fore Sadwrn, 15fed Ionawr; a hefyd, i ni yrru manylion am ein hoff lyfr draw i Aberystwyth. Mae Liz yn danfon y linc ar gyfer y digwyddiadau i'r aelodau. Bydd y linc ar gyfer cyrsiau a gynhelir yn ystod y mis hefyd.

Cynhaliwyd cyfarfod o bwyllgor y Gangen yn y Neuadd ar 19eg Ionawr, i drefnu gweithgareddau gweddill y flwyddyn.

Bydd cyfarfod Chwefror eto drwy gyfrwng Zoom, nos Fercher, 9fed Chwefror. Y noson honno, cawn hanes y datblygiad cymunedol pwysig sydd ar y gweill yn Yr Orsaf, Penygroes.

**Anne Elis**

**Clwb Pêl Droed Ieuenctid Bethel**

Diolch i Sasha Williams – merch brysur iawn – am adroddiad cynhwysfawr am gampau'r clwb llwyddiannus yma. Mae'r agweddau'n cyfeirio at elfennau ar ac oddi-ar y cae. Cewch ddilyn hynt y gemau yn yr Adran Chwaraeon. Ond yn y ddau lun yma rhoir sylw i'r carfannau dan 9 a 12 oed gafodd ddiwrnod i'r brenin o Sgio a Thiwbio yng Nghanolfan Llandudno. Roedd hyn yn fonws haeddianol iddynt am eu hymroddiad i'r Clwb dros y cyfnod anodd yma.





**Clwb Bowlio Dan-do Bethel**

Mae'r Clwb Bowlio wedi ail ddechrau sesiynau yn y Neuadd Goffa. Rydym yn cyfarfod ar bnawn Mercher, o 1pm i 3pm. Mae'r aelodau'n cael budd mawr o'r sesiynau hyn gan eu bod yn rhoi cyfle i gadw'n heini a chymdeithasu, ac mae hefyd elfen o gystadleuaeth.

Nid yw'r Clwb wedi ymuno â Chynghrair Gwynedd eleni, ond gobeithir gwneud yn y dyfodol os bydd yr amgylchiadau'n caniatau.

**Idris Rees**

**Criw Cerdded Bethel**

Ar fore smwclyd o Ionawr, mentrodd 25 i gerdded. Y gyrchfan oedd ardal Aberffraw, gan ganolbwyntio ar Fae Cwyfan ac yna cerdded o gwmpas y Trwyn Du sy'n rhan o Lwybr Arfordirol Môn. Y tywysydd ar gyfer y daith oedd Richard Lloyd Jones, sydd â chysylltiad teuluol ar ochr ei fam gyda'r pentref arbennig yma. Yr oedd taid a hen-daid Richard yn seiri maen, a chyfeirwyd at eu cyfraniad at adeiladu'r bont garreg dros yr afon, a'r mur gwarchodol o gwmpas 'yr eglwys yn y môr'. Arhoswyd am gyfnod ym mynwent y pentref i weld bedd taid Richard, sef David Lloyd, a chyfeiriwyd at ei gyfraniad fel swyddog Cangen y Berffro o Undeb Gweithwyr Môn. Yr oedd yr Undeb yma, a barodd tan y 50'au hwyr, yn allweddol o ran ennill telerau gweithio gwell i weithwyr cynhennid yr Ynys, yn enwedig y gweision ffermydd. Yr oedd David Lloyd wedi ymgeisio am sedd ar y Cyngor Sir yn 1910. Oedwyd wedyn ger y fangre gorffwys ar y ffordd i gyfeiriad Bae Cwyfan. Yno, cyfeirwyd at y rhan o'r tir â osodwyd i feibion lleol rentu tir o Ystad



**Ysbwriel**
Sawl tro yn y colofnau hyn rwyf wedi diolch a chanmol yr unigolion / gwirfoddolwyr sy'n mentro allan yn rheolaidd i gasglu'r sbwriel sy'n britho ffyrdd a llwybrau ein hardal. Ar hyn o bryd, mae'r llwybr cerdded / beicio yn cael ei gadw'n glir o'r 'taflwyr sbwriel'. Nid felly y weirglodd rhwng Erw Bian a'r Gors Bach ac i lawr o'r Gors Bach i gyfeiriad Cefn Gwyn. Mae'r ddau leoliad yn frith o ganiau diodydd gwag a bocsys prydau parod. Yn amlwg, nid oes gan y rhai sy'n gyfrifol, boed leol neu o'r tu allan, barch at amgylchfyd na bro. Mae'r llun yn tystio – cynhaeaf un casgliad yw hwn – bod hon yn broblem gynyddol. Oes posib dylanwadu ar yr unigolion hunan-gyfiawn, ddi-egwyddor yma?



Bodorgan. Yna, edrych draw at diriogaeth hen faes tanio a gwersyll milwrol Tŷ Croes. Heddiw, swn rasus moduron a beiciau modur a glywir yn Nhŷ Croes. Yn anffodus, oherwydd y llanw ni ellid croesi'r sarn i Eglwys Cwyfan. Caed egwyl ger y fainc sy'n edrych draw am yr Eglwys. Yma, darllenodd Richard ddetholiad o'i awdl 'Chwilio' a gipiodd gadair Eisteddfod y Tymbl, fis Awst eleni. Y 'chwilio' yw ei resymau personol am ddychwelyd dro ar ôl tro i'r bae 'ysbrydol' hwn.

> "Yn wâg â'i breichiau'n agor
> y mae mainc uwchlaw y môr,
> ddaw'n sedd i feddwyn neu sant,
> i'r ynys 'run llwybr rannant."

Dilyn llwybr yr arfordir wedyn nes cyrraedd Traeth Cregyn Iago. Cregyn bach a fyddai'n cael eu casglu gan y plant ac yna rhai'n cael eu troi'n fwclisiau i'w gwerth i'r 'visitors'. Yr oedd trigolion Berffro'n credu fod y cregyn bach yn dod â lwc, a chedwid hwy ar y silff ben tân mewn sawl tŷ. Rhan olaf y daith oedd ar lan yr afon, yn ôl at y man cychwyn ger y bont, taith oddeutu pedair milltir. Er y llwybrau mwdlyd, roedd pawb wedi mwynhau'r cymdeithasu. Ar gyfer taith mis nesaf, bydd Morfudd yn cysylltu â'r grwp drwy gyfrwng Whatsap. Edrychwn ymlaen.

**Gwilym ac Eirlys Williams**

**Oedfaon Chwefror**
**Cysegr** (10am):
Chwefror 6: Nerys Griffith
Chwefror 13: Y Parchg Gwenda Richards
Chwefror 20: Dafydd Iwan
Chwefror 27: Richard Morris Jones
**Saron** (1.30pm):
Chwefror 6: Trefniant Lleol
Chwefror 13: Y Parchg Richard Gillion
Chwefror 20: Nerys Griffiths
Chwefror 27: Y Parchg Richard Gillion (S)

Gan fod yr oedfaon wedi ail gychwyn yn y Cysegr mae croeso i unrhyw un gyfrannu bwydydd ar gyfer Banc Bwyd Ardal Caernarfon. Gellir gadael y rhoddion yn y 'fasged gasglu' yn y Cysegr neu eu danfon at Richard Lloyd Jones, 5 Y Ddôl. Fel arfer, bydd y rhoddion yn cael eu trosglwyddo i Gaernarfon yn wythnosol, ar fore dydd Mawrth. Diolch o flaen llaw am eich cefnogaeth.

**Etholiad Cyngor Sir, Mai 2022**
Pan roedd y rhifyn yma o'r Eco yn mynd i'w wely yr oedd un enw o Fethel wedi ei roddi ymlaen fel ymgeisydd ar gyfer ward Bethel/Y Felinheli unedig. Yr enw yw Sasha Williams fydd yn sefyll dan faner Plaid Cymru.

## NANT PERIS

**Eglwys Sant Peris**
Cynhelir gwasanaeth y Cymun Bendigaid bob bore Sul am 9:30 y bore. Hefyd, cynhelir un ai gwasanaeth y Cymun Bendigaid neu'r Foreol Weddi bob dydd Mawrth am 11.00 y bore.

## LLANBERIS

**Cais am Newyddion**
Os oes unrhyw unigolyn neu gymdeithas yn dymuno cyflwyno eitem o newyddion, llun neu erthygl i'r Eco, gallwch wneud hynny drwy gysylltu â mi drwy ffôn / ebost neu alwad personol, yn y cyfeiriadau sydd o dan Newyddion Llanberis ar dudalen 2. Diolch yn fawr.


**Eglwys Sant Padarn**
Gwasanaethau mis Chwefror:
Chwefror 6: 11am – Cymun Bendigaid
Chwefror 13: 11am – Cymun Bendigaid
Chwefror 20: 11am – Boreol Weddi
Chwefror 27: 8am – Cymun Bendigaid;
11am – Cymun Bendigaid
Enillwyr Clwb 100 mis Tachwedd 2021 oedd: 1. Bethan Owen; 2. Suzanne Fisher; 3. Margaret Rees Jones; 4. Caryl Jones; 5. Mark K Jones.

**Mae arddangosfa o waith Isaac Hughes**, ffotograffydd cynnar Llanberis a oedd yn tynnu portreadau o bentrefwyr a chwarelwyr y cyfnod, i'w gweld yn yr Eglwys rhwng 10.30 a 2.00 o'r gloch bob dydd, o ddydd Llun i ddydd Sadwrn.









Ymhen pedair blynedd i eleni, mi fydd can mlynedd wedi mynd heibio ers i bentref Deiniolen fabwysiadu'r enw Deiniolen yn swyddogol. Dyma **Glyn Tomos** yn adrodd yr hanes tu ôl i hyn.

# Newid enw o Ebenezer i Deiniolen




Yr enw ar y pentref hyd at 1926 oedd Ebenezer, ond yn y flwyddyn honno cafwyd penderfyniad i newid enw'r pentref i'r enw cyfredol. Plaid Genedlaethol Cymru (Plaid Cymru i ni heddiw) oedd tu ôl i'r symud hwn i newid enw'r pentref, a'r gred yw mai gŵr lleol o'r enw H. R. Jones (un o sefydlwyr Plaid Genedlaethol Cymru ac yn ddiweddarach, Trefnydd Cyntaf y Blaid honno) oedd yr un mwyaf amlwg tu ôl i'r ymgyrch hon.

Cychwynnodd y broses o newid yr enw mewn cyfarfod o Gyngor Plwyf Llanddeiniolen ym mis Ionawr 1926 pan dderbyniwyd gohebiaeth gan Blaid Genedlaethol Cymru yn annog y Cyngor i newid enw'r pentref a rhoi iddo enw Cymraeg. Pasiwyd bod yr enw newydd yn cael ei ystyried, ond cyn penderfynu yn derfynol, penderfynwyd mynd i'r wasg er mwyn cael barn y gymuned leol ar y mater.

Yna yng nghyfarfod y Cyngor Plwyf ym mis Gorffennaf yr un flwyddyn pasiwyd yn ddiwrthwynebiad bod yr enw Deiniolen yn cael ei fabwysiadu yn lle Ebenezer. Ymddengys na ddaeth unrhyw wrthwynebiad o du'r cyhoedd i'r syniad o newid yr enw. Efallai'r rheswm am hyn oedd bod yr enw Deiniolen yn gyfarwydd gan mai wrth yr enw Llanddeiniolen oedd yr ardal yn cael ei hadnabod. Felly nid oedd yn enw chwithig nac ychwaith yn ddieithr i bobl y pentref. Yr un pryd, ar gais y postfeistr lleol, pasiwyd yn unfrydol bod enw Swyddfa Bost Clwt y Bont yn aros. Erbyn mis Medi ymddangosodd marc post Deiniolen yn lle Ebenezer am y tro cyntaf.

Cymhelliad H.R Jones a'r Blaid Genedlaethol Cymru ar y pryd oedd cael enwau Cymraeg ar bentrefi Arfon yn hytrach nag enwau â blas Iddewig arnynt fel Ebenezer, Bethel, Carmel, Saron, Nebo a Chesarea ac ati. Roedd yr enwau Beiblaidd hyn ar y pentrefi yn gystal arwydd â dim o ddylanwad Ymneilltuaeth ar fywydau pobl yr ardaloedd hyn. Ond yn ôl H.R Jones, pentrefi oedd y rhain yng nghanol cadernid Gwynedd ac yng nghalon y Gymru Gymraeg, ac felly dim ond iawn oedd iddynt gael eu hail-fedyddio ag enwau Cymraeg. Methwyd ag argyhoeddi pentrefwyr Bethel, Carmel, Saron, Nebo a Chesarea, a thrigolion pentrefi eraill ag iddynt enwau Beiblaidd, ond fe lwyddodd ymgyrch H.R. i newid enw ei bentref genedigol.

Un na chafodd ei blesio o gwbl gyda newid enw y pentref i Deiniolen oedd W. J. Gruffydd o Fethel. Yn ei gyfrol 'Hen Atgofion' mae'n dweud y drefn yn enbyd am y newid. Yn ôl Gruffydd roedd yr enw Ebenezer yn codi'n naturiol o hanes crefydd Ymneilltuaeth yr ardal yn union fel yr oedd enw plwyf Llanddeiniolen (llan neu eglwys y sant Deiniolen) wedi codi o hanes crefyddol cyfnod cynharach. Snobri, meddai Gruffydd, oedd mynnu ymwrthod ag urddas syml Ebenezer.

O glywed am benderfyniad Cyngor Plwyf Llanddeiniolen i newid yr enw i Ddeiniolen, cyhoeddodd *Yr Herald Gymraeg* eu bod am roi Deiniolen yn hytrach nag Ebenezer ar ben gohebiaeth y pentref yn y papur. Yr un pryd gofynnodd yr *Herald* pam nad oedd modd mynd ati i newid enwau'r strydoedd. Yn ddiddorol iawn mae Gracie Owen yn ei chyfrol *Cofio Deiniolen* yn nodi mai dirgelwch mawr iddi hi ar y pryd oedd bod enwau'r strydoedd i gyd yn uniaith Saesneg. Mae hi yn cyfeirio at High Street, New Street, Vaynol Terrace, Caradog Place, Deiniol Road, View Terrace, Green Terrace ac amryw eraill. Ar y llaw arall mae'n dweud mai enwau Cymraeg oedd ar y tyddynnod – Foel Clochdy, Tyddyn Pwll, Bwlch Cae Mawr, Ffridd Uchaf ac ati.

Yn ddiddorol iawn arweiniodd penderfyniad Cyngor Plwyf Llanddeiniolen at weld llythyr gan rywun o'r enw 'John Bach' yn y wasg leol o dan y pennawd 'Lloegr Fach ym mro Deiniolen' yn croesawu newid enw'r pentref yn y wasg leol ond yn feirniadol iawn yr un pryd bod enwau'r strydoedd ac adeiladau'r pentref yn Saesneg. 'Pwy fuasai'n dychmygu', meddai'r llythyrwr, 'dod ar draws y fath bentwr o Saesneg mewn ardal mor Gymreig. Mi fuasai rhywun yn tybio bod y pentref yng nghanol Lloegr'. Fe aeth ymlaen i ddweud y buasai 'perchnogion a thrigolion y tai a'r heolydd hyn yn parchu mwy arnynt eu hunain, oni ni pherchant eu cenedl trwy roddi enwau o'r iaith a ddeallant orau ar eu preswylfeydd'. Mae'n diweddu trwy ddweud, 'Byddwch yn gyson a chwi eich hunain; ai Saeson ynte plant Saeson ydach pan gofleidiwch enwau estron fel hyn? Rhowch enwau Cymraeg ar dai, siopau a'r strydoedd yng Nghymru Gymreig'.

Oes unrhyw un o ddarllenwyr yr Eco yn gallu adrodd mwy am yr hanes yma? Hefyd os oes gan unrhyw un wybodaeth am fywyd a gwaith H. R. Jones a'i deulu, mi fyddai Glyn yn falch iawn o glywed gennych. Ei fanylion cyswllt yw 07917 317205 neu tomos882@btinternet.com.







## DEINIOLEN

Dymuna Annette Bryn Parri, Cynefin, Deiniolen a'i phlant Heledd, Ynyr a Bedwyr ddiolch am bob cefnogaeth, cydymdeimlad a'r caredigrwydd a gawsant ac a ddangoswyd tuag atynt fel teulu yn eu profedigaeth enfawr o golli dyn mor arbennig, Gwyn Parri. Yn ŵr, tad a thaid amhrisiadwy. Bydd y golled yn enfawr i'w deulu, ffrindiau a'r gymuned. Carem fel teulu ddiolch i bawb a gymrodd ran yn y gwasanaeth, a dyma un o'r teyrngedau a ddarllenwyd yn y gwasanaeth gan Cefin a Rhian Roberts, Glanaethwy. Diolch o waelod calon i bawb.

**GWYN**

**Gwyn** y gwêl y frân ei chyw,
a **gwyn** eu byd y tlodion.
Byd **gwyn** yw'r byd a gano,
a **gwyn** yw'r pur o galon.

**Gwyn** eich byd pan y'ch erlidir
a **gwyn** yw byd yr adar,
**Gwyn** a gwridog, teg o bryd,
**gwyn** fyd y rhai mewn galar

Abid galch fel abad **gwyn**
yw'r alarch ar ei wiwlyn.
**Gwyn** oedd mynydd Begw dlawd
yn cario'i thorth a menyn,

Pan aeth hi gyda'i basged fach
i fwthyn Nanw Siôn,
**Gwyn** yw'r eira ar y copa
a **gwyn** pob cam o'r lôn.

**Gwyn** fyd y rhai trugarog,
tangnefedd plant i Dduw.
**Gwyn** eu byd yr addfwyn,
**Gwyn** fyd tu hwnt i glyw.

Mae '**gwyn'** ym mhobman heddiw,
presennol ym mhob man.
Ym mhob un nodyn a phob cân,
yn hiraeth cloch y llan.

A **gwyn** oedd ei gynefin
ei gartre ar ben y bryn
lle bu'r holl nodau'n dawnsio,
dyma oedd gwynfyd **Gwyn.**

**Gwyn** y plethwr geiriau,
a **Gwyn** a'i straeon lu,
**Gwyn** yr athro, **Gwyn** y bardd,
a **Gwyn,** y cyfaill cu.

**Gwyn** y tad a **Gwyn** y taid,
dyn teulu oedd **Gwyn** yn siŵr.
Ond mwy na dim, chwaraeodd ran
ddi-hafal, **Gwyn** y gŵr.

Y ddeuawd bêr ei hasiad,
chewch chi byth gystal duet!
A chydsymud perffaith i'r coda olaf
dal ofal meistrolgar Annette.

Y **Gwyn** na chododd wreiddau rioed
oedd **Gwyn,** y rhigymwr bro.
A **gwyn** ein byd ni heddiw
o gael ei nabod o.

**Neges gan Y Cynghorydd Elfed Williams**
Mae'r gwaith i wella cyflwr lôn Allt Sam wedi ail gychwyn. Gobeithio bydd y gwaith wedi ei gwblhau yn fuan.

Diolch yn fawr i Adran Priffyrdd y Cyngor.

**Diolchiadau**
Dymuna Mrs A J Owen (Nan) gynt o Rhydfadog, Deiniolen, ac yn awr yn Plas Pengwaith ddiolch i'r teulu a ffrindiau am y cardiau, arian ac anhregion Nadolig a gafodd.

**Y Cylch Meithrin**
Bu ychydig o newidiadau ym mhwyllgor a staff y Cylch Meithrin yn ddiweddar. Diolch yn fawr i Leia West sydd wedi ymgymryd â dyletswyddau'r Trysorydd. Hoffai aelodau'r Pwyllgor ddiolch o galon i'w rhagflaenydd, Ceirion Thomas am ei waith ardderchog yn gofalu am goffrau'r Cylch dros y blynyddoedd diweddar. Diolch hefyd i Nesta Elliott sydd wedi ymgymryd â dyletswyddau'r Ysgrifennydd gan fod yr Ysgrifennydd blaenorol, Carys Roberts, bellach yn gweithio yn y Cylch, a mawr yw ein diolch iddi hithau am ymgymryd â'r gwaith pwysig hwn dros y blynyddoedd. Heb wirfoddolwyr i fod yn aelodau o'r pwyllgor ni fyddai'r Cylch Meithrin yn bodoli, a byddai hynny'n golled fawr i holl blant bach y pentref.

Hoffem hefyd groesawu Jade Jones fel aelod newydd o staff y Cylch Meithrin, a ddechreuodd ei swydd newydd fel cymhorthydd un i un, ddiwedd mis Ionawr.

## PENISARWAUN

Anfonir ein cofion gorau at bawb ohonoch. Dymunir adferiad iechyd buan i'r rhai ohonoch sy'n sâl, gan obeithio fod Myfanwy, Is-gadeirydd y Pwyllgor yn gwella wedi iddi dorri ei chlun - da deall ei bod yn gwella ynghyd â'r boen yn ei chlust. Dymunir gwellhad buan i Ann Ifans wedi iddi dorri ei garddwrn. 'Daw eto haul ar fryn'.

Edrychir ymlaen am gael ail-gydio yn yr holl weithgareddau a fwynheir yn y pentref.

**Eisteddfod Bentref**
Er nad ydym wedi cael cynnal ein Heisteddfod Bentref ers cryn amser, prysured y dydd y cawn ail-gwrdd i fwynhau cymryd rhan yn yr holl gystadlaethau. Braf clywed 'Genod Winllan' – Erin, Anest a Chennin yn datgan ar raglen Rhys Meirion, 'Canu Gyda Fy Arwr' eu bod, fel triawd, wedi canu 'Pan Ddaw Yfory' gan Caryl Parry Jones yn ein Heisteddfod Bentref sawl blwyddyn yn ôl. Dymunir eu llongyfarch am eu perfformiad clodwiw, gyda Caryl yn amlwg yn gwerthfawrogi eu talent. Yn amlwg mae'r Eisteddfodau bach yn gallu dylanwadu ar ein hieuenctid. Erbyn hyn mae'r dair yn famau ifanc brwdfrydig a bydd eu plant hwythau yn sicr o gael yr un anogaeth i gymryd rhan yn yr holl weithgareddau sy'n cynnal ein hiaith.

Anfonir ein cofion at Liz, Is-gadeirydd yr Eisteddfod, sy'n dal i ddisgwyl am glun newydd, gobeithio y cei alwad yn fuan i liniaru'r misoedd o boen.

**Diolch**
Dymuna Dafydd, Sycharth, ddiolch i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am y llu o gardiau ac anrhegion ar ei ben-blwydd arbennig.

**Tâl am yr Eco**
Atgoffir darllenwyr Yr Eco bod angen tâl blynyddol o £10 – naill ai ym mis Ionawr neu ym mis Mawrth. Dylid ei anfon i'ch dosbarthwr, gyda diolch ymlaen llaw am eich cefnogaeth.

www.ecorwyddfa.co.uk

ECO'r Wyddfa

## Cynllun Tai Cymunedau Cymru

Hoffech chi fod pobl yn gallu byw yn y gymuned lle cawsant eu magu ac i'r Gymraeg barhau i ffynnu fel iaith gymunedol?

Mae Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg wedi cyhoeddi dogfen ymgynghorol ar y Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg. Mae'r ddogfen yn cynnwys nifer o bethau y gellir eu gwneud ar lefel gymunedol er mwyn cefnogi a diogelu cymunedau Cymraeg lle mae nifer fawr o ail gartrefi.

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i glywed eich barn ar y ddogfen, ac i chi rannu'ch syniadau am weithgareddau newydd y gall cael eu datblygu er mwyn sicrhau dyfodol llewyrchus i gymunedau Cymraeg i helpu creu Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg gwerth chweil.

Dywed is-adran y Gymraeg Llywodraeth Cymru:

'Rydyn ni'n awyddus i greu cyfleoedd i gymunedau arwain ar rai o'r ymyraethau yma, ac am i'n cymunedau gael yr adnoddau angenrheidiol i hwyluso cyfranogiad cymunedol.

Tra'n bod ni'n hyderus y bydd yr ymyraethau yn y ddogfen – ynghyd â'r camau gweithredu eraill rydyn ni wedi'u cyhoeddi ar faterion treth, cynllunio a fforddiadwyedd – yn rhai cadarnhaol – rydyn ni'n gwybod nad oes atebion hawdd. Rydyn ni'n awyddus i glywed eich barn ar y ddogfen, ac ry'n ni hefyd am i chi rannu'ch syniadau am weithgareddau newydd y gallwn eu datblygu er mwyn sicrhau dyfodol llewyrchus i'n cymunedau Cymraeg a'n helpu ni i greu Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg gwerth chweil.'

**Ymatebion erbyn: 22 Chwefror 2022**

https://llyw.cymru/cynllun-tai-cymunedau-cymraeg



# Cais am help i ddarganfod aelodau cyntaf Urdd Gobaith Cymru



Wrth i fudiad ieuenctid mwyaf Cymru ddathlu ei ben-blwydd yn 100 oed yn 2022, mae'r Urdd yn chwilio am rai o'r aelodau cyntaf un.

Oeddech chi neu aelod o'r teulu yn aelod o'r Urdd yn yr 1920au, 1930au neu'r 1940au?

Mae dros 4 miliwn o blant a phobl ifanc wedi bod yn aelodau o'r Urdd ers ei sefydlu yn 1922 gan Syr Ifan ab Owen Edwards.

Dyma ambell ffaith i chi o'r gorffennol:

- Sefydlwyd yr Adran gyntaf yn Nhreuddyn, Sir y Fflint yn 1922
- Cynhaliwyd yr Eisteddfod yr Urdd gyntaf yng Nghorwen yn 1929
- Cafodd Gwersyll Llangrannog ei sefydlu yn 1932 a Glan-llyn yn 1950
- Crëwyd Mistar Urdd yn 1976

**Beth yw eich atgofion chi? Helpwch ni i roi straeon ac atgofion yr Urdd ar gof a chadw ar gyfer y ganrif nesaf. Cysylltwch â ni ar helo@urdd.org, 07976 330361 neu gallwch ymuno â'r grŵp Facebook 'Atgofion Aelodau'r Urdd' (www.facebook.com/Urdd100) i rannu lluniau a hanesion difyr o unrhyw ddegawd.**





## DINORWIG

**Blwyddyn Newydd**

Dyma wynebu blwyddyn newydd unwaith eto, a'r hen un wedi diflannu mor sydyn. Er, rwy'n siwr fod pawb yn falch o weld cefn 2021, a does ond gobeithio y bydd 2022 yn llawer gwell. Blwyddyn nad aiff o'r cof yw 2021, gyda'r mwyafrif o deuluoedd wedi wynebu profedigaethau a chladdu anwyliaid heb fedru bod gyda hwy ar ddiwedd y dydd. Y gobaith yw na fydd raid wynebu hynny byth eto, ond ar yr un pryd, yn falch o gael diolch i'r rhai fu'n gweinyddu a gwasanaethu yn eu horiau olaf.

**Profedigaeth**

Trist yw cofnodi colli un o blant yr ardal, sef David Lloyd Hughes (neu Dafydd fel y'i gelwid gan bawb), gynt o 2 Maes Eilian, ond wedi symud i Llys Menai, Porthaethwy ers tair blynedd ar ddeg. Yr oedd yn fab i'r diweddar Mr a Mrs Tomi Lloyd Hughes, ac yn unig frawd i Mary Lloyd Evans, Penrhosgarnedd. Bu farw'n hynod sydyn, yn 71 mlwydd oed, yn dilyn damwain yn ei gartref. Pan yn blentyn roedd yn mynychu'r ysgol leol cyn symud ymlaen i Ysgol Brynrefail. Wedi gadael yr ysgol aeth i weithio i'r Llyfrfa yng Nghaernarfon (Gwasg y Bwthyn yn ddiweddarach), ac yno y treuliodd ei yrfa. Roedd yn aelod yng Nghapel M.C. Dinorwig, ble bu'n flaenor am gyfnod nes i'r capel gau. Ymunodd wedyn gyda chapel Cefn y Waun ac yn ddiweddarach â Chapel Mawr y Borth. Cynhaliwyd yr angladd yn yr Amlosgfa dan arweiniad y Parchg Ddr Elwyn Richards (yn absenoldeb ei weinidog, y Parchg Geraint Roberts oherwydd gwaeledd). Roedd yr angladd yn hollol breifat o ganlyniad i'r cyfyngiadau Cofid. Claddwyd ei lwch gyda'i rieni ym Mynwent Macpelah. Mae Mary a'r plant yn dymuno diolch am y deyrnged arbennig a roddwyd i'w brawd, ac am yr holl negeseuon o gydymdeimlad.

**Llongyfarchiadau**

Daeth Mrs Hannah Mary Roberts, Tŷ'r Ysgol yn hen nain. Ganed merch fach i Lois, merch Marina a wyres Hannah, ar y 7fed o Ionawr. Mae pawb wedi gwirioni wrth gwrs.

**Mudo**

Ffarweliwn â Mr a Mrs Alwyn Jones, 5 Bro Elidir sydd wedi symud cartref i Ddwygyfylchi. Pob dymuniad da i chwi eich dau yn eich cartref newydd. Dyma golli dau o Gymry eto o'r pentref. Deallwn hefyd fod teulu Fron Dirion wedi gadael yr ardal, a dymunwn yn dda iddynt hwythau yn eu cartref newydd.

**Cofion**

Anfonwn ein cofion gorau at bawb sy'n dioddef anhwylder yn y cartref neu yn yr ysbyty, gan ddymuno adferiad llwyr a buan i chwi oll.

# Un funud fach …

## TONGA

Fedraf fi ddim dychmygu'r hyn a ddigwyddodd yn Tonga ganol mis Ionawr pan ffrwydrodd llosgfynydd Hunga-Tonga-Hunga-Ha'apai ac y trawodd tswnami nerthol nifer fawr o'r ynysoedd sy'n ffurfio'r wlad. I bob pwrpas diflannodd y ddwy ynys nesaf at y llosgfynydd, Hunga-Tonga a Hunga-Ha'apai dan y cefnfor gan adael ond tir uchaf y naill a'r llall uwchlaw'r dŵr. Ddyddiau wedi'r trychineb nid oedd modd cael gwir syniad o faint y difrod a'r dioddef a achoswyd gan ei bod mor anodd cysylltu â'r wlad am fod cysylltiadau pŵer a ffôn a rhyngrwyd wedi eu torri. Ond mae'n amlwg fod y difrod yn enfawr a bod degau o filoedd o bobl wedi eu heffeithio gan y trychineb. Amser a ddengys faint o bobl fydd wedi colli eu cartrefi a phopeth a feddant, a faint hyd yn oed a fu farw. Ond os yw'n anodd dychmygu'r difrod a'r loes a ddaeth yn ei sgil, nid anodd gobeithio fydd ymateb i unrhyw apêl a ddaw am gymorth i'r bobl a ddioddefodd cymaint.

Mae'n siŵr y daw cais am gymorth i bobl Tonga fel y cafwyd ceisiadau am gymorth yn dilyn trychinebau eraill. Mae'n debyg bod nifer y bobl sy'n dioddef oherwydd gwahanol drychinebau wedi dyblu dros y deng mlynedd diwethaf wrth i effeithiau newid hinsawdd ddod ar ben y newyn a'r rhyfeloedd a'r daeargrynfeydd a'r llifogydd y buom ond yn rhy gyfarwydd â hwy dros y blynyddoedd. Mae'r angen am gymorth yn sicr yn cynyddu, a diolchwn i Dduw am bob haelioni a ddangosir gan bobl sy'n awyddus i wneud yr ychydig sydd o fewn eu gallu i gynorthwyo pobl yng nghanol eu dioddefiadau a'u colledion.

Un peth y mae pob argyfwng yn ei wneud ydi ein hatgoffa o argyfyngau eraill y tueddwn ni i anghofio amdanynt. Pa alwad bynnag a ddaw am gymorth i bobl Tonga, cawn ein hatgoffa o'r newyn yn Afghanistan a'r ddaeargryn yn Haiti a achosodd ddioddefaint dychrynllyd yn y gwledydd hynny. Mor rhwydd yr anghofiwn unwaith y diflanna'r argyfyngau hyn o benawdau'r bwletinau newyddion a'r papurau newydd.

O'r cychwyn, roedd Eglwys Iesu Grist yn cael ei hannog 'i wneud daioni, i fod yn gyfoethog mewn gweithredoedd da, i fod yn hael ac yn barod i rannu, ac felly i gael trysor iddynt eu hunain fydd yn sylfaen sicr ar gyfer y dyfodol, i feddiannu'r bywyd sydd yn fywyd yn wir' (1 Timotheus 6:18-19). Yr un yw'r alwad i ddilynwyr Iesu Grist o hyd, iddynt garu eraill trwy ofalu amdanynt a rhannu â hwy o'u digonedd eu hunain.

Ac ynghyd ag estyn pob cymorth ymarferol posibl, ni ddylai Cristnogion ddibrisio nac esgeuluso'r cyfrifoldeb sydd arnynt i weddïo dros eraill yn eu dioddefaint. Mae'r amrywiol argyfyngau a thrychinebau ym mhob cwr o'r byd yn galw arnom i gofio am bobl sydd ac a fydd yn gwbl ddieithr i ni. Ond yr un cariad a'r un gofal am eraill sy'n gweddïo'n gyson dros deulu a chyfeillion a chymdogion ym mhob blinder sy'n eu hwynebu hwythau.

**JOHN PRITCHARD**



# Ysgol Brynrefail

Agorodd yr ysgol yn hwyrach na'r arfer sef y 10fed Ionawr 2022. Bu cyfyngiadau Covid-19 yn fwy llym yn yr ysgol oherwydd lledaeniad yr amrywiolyn Omicron ac felly ni fu cyfle i gael llawer o eitemau o newyddion ar gyfer rhifyn y mis hwn o Eco'r Wyddfa yn anffodus.

Fodd bynnag, mae dau o'r disgyblion wedi bod yn hynod brysur a gobeithio y gwnewch chi hoffi darllen eu hanes:

Am dridiau ym mis Rhagfyr, y 17eg, 18fed a'r 19eg bu'r ddau ddisgybl arbennig yma, Rhys Pritchard o flwyddyn 9 a Dion Edwards o flwyddyn 10 yn cymryd rhan mewn gala nofio genedlaethol Nofio Gaeafau Cymru / Swim Wales Winters yn Abertawe. Cyn hynny fe wnaethant gymryd rhan yn y cyfarfod *City of Sheffield Snow Frills* ym mis Tachwedd.

Dyma oedd eu canlyniadau yn y gala ddiweddaraf:
Dion yn ail trwy Gymru gyda :
50m fly – 28.95 eiliad
100m fly – 1:03.97
200m fly – 2:31.53 – 3ydd trwy Gymru

Rhys yn 3ydd trwy Gymru gyda
100m rhydd – 1:01.36
100m fly – 1:11.33
100m cefn – 1:10.27 – 4ydd trwy Gymru
200m cefn – 2:35.25 – 4ydd trwy Gymru

Mae'r ddau yn nofio i Glwb Caernarfon a Nofio Gwynedd ers sawl blwyddyn bellach. Maent yn arddangos dycnwch a phenderfynoldeb anhygoel wrth iddyn nhw ymarfer nofio yn rheolaidd gyda'r nosau a chodi am 4.30 y bore bedair gwaith yr wythnos er mwyn ymarfer yn galed cyn dechrau'r diwrnod ysgol. Maen nhw a'u teuluoedd yn haeddu eu canmol yn fawr am y fath ymrwymiad gwych.







Rhys a Dion yn nofwyr o fri





BYSUS RHIWLAS
BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Tripiau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol - Ffoniwch **(01248) 361044**
**D. P. OWENS** RHIWLAS

DODREFN A LLORIAU
PERKINS
●●● 01286 673535 ●●●
*www.perkinsfurniture.co.uk*
16 Stryd Porth Mawr, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1AG

# Ti'n cofio 40…30…20…10?

Wyddoch chi fod gwefan *Eco'r Wyddfa* - www.ecorwyddfa.co.uk – yn drysorfa o atgofion am yr hyn sydd wedi bod yn digwydd yn ein bro am dros 45 o flynyddoedd? Os ewch chi i'r adran 'Archif' ar y wefan fe gewch fynediad i'r holl hen rifynnau a nifer fawr o luniau.

Cyhoeddwyd rhifyn cyntaf yr *Eco* fis Chwefror 1976, a chyn bo hir byddwn yn dathlu cyhoeddi rhifyn 500. Dipyn o gamp! Ewch i gael cip ar yr hen rifynnau a'r lluniau i weld os yw'ch llun chi yno, pa newyddion gyrhaeddodd y tudalenau blaen neu beth oedd yn digwydd ym mis eich geni!

Er mwyn rhoi blas i chi, dyma ychydig o bytiau o gynnwys *Eco'r Wyddfa* ym mis Chwefror 40, 30, 20 a 10 mlynedd yn ôl…

---

**Chwefror 1982**
Pris yn 15c.


ECO'R WYDDFA
Rhif 67 CHWEFROR 1982 Pris: 15c
ANRHYDEDDU HUGH RICH
MAE LLAW Y GAEAF OER . . .
CADAIR OLWYN I'R HEN A'R ANABL
CODWR PWYSAU ADDAWOL
CYHOEDDIAD PWYSIG

Ymdrechion plant Ysgol Llanrug, pwyllgor y carnifal a pharti Clychau'r Grug i godi arian i brynu cadair olwyn fyddai ar gael i unrhyw un fyddai ei hangen. Ffion Williams o Safon 3 gafodd y syniad yn wreiddiol, gan iddi weld bod ei chymydog oedrannus yn methu a gadael y tŷ.

Hanes Hugh Richard Jones (Hugh Rich) yn derbyn medal y gymanwlad – y B.E.M – am ei wasanaeth i'r diwydiant llechi. Ar ôl gadael yr ysgol yn 15 oed aeth yn brentis yn y Gilfach Ddu, gan godi yn y pen draw i fod yn brif beiriannydd y chwarel tan iddi gau yn 1969. Gan ei fod yn parhau wrth y llyw yn ystod y cyfnod cau, rydym hyd heddiw yn ddyledus i'w weledigaeth gan mai y fo sicrhaodd bod cynifer o'r offer a'r peiriannau a'r wybodaeth am eu defnyddio yn parhau i gael eu gweld a'u rhannu yn yr Amgueddfa Lechi. Cafodd ei gyflogi wedyn gan yr Amgueddfa, gan aros ynghlwm â'r Gilfach Ddu tan ei ymddeoliad fis Mawrth 1981.

Graham Ferguson Lacey yw'r 'dewin drwg' sy'n destun erthygl gan 'draenog'. Mr Lacey sy'n cael ei geryddu'n hallt am fod yn bennaf gyfrifol am gau ffatri Bernard Wardle yn Peblig gan luchio 322 o weithwyr ar y clwt. Roedd Mr Lacey a'i fys mewn sawl potes a chwmni ac wedi symud i'r UDA. Er yr holl gamweddau difrifol honedig, diddorol yw darllen bod Mr Lacey yn efengylwr oedd yn ffrindiau personol â neb llai na Billy Graham a Ronald Reagan. Braf arno'n gallu cysgu mor dawel yn de?!



Eurun Williams a Gwynfryn Williams

Roedd Theatr Bara Caws yn cychwyn taith gyda drama newydd - Oes 'ma Bobol. Drama yw hi am 'agweddau sefyllfa gyfoes' sef yr anawsterau a wynebir gan y di-gartref, cyflwr tai yn gyffredinol yng Ngwynedd, a phroblem tai haf. Fawr ddim wedi newid nagoes?

Canmoliaeth i aelodau Clwb Codi Pwysau Llanrug yn dilyn llwyddiant yr aelodau yng nghystadleuaeth bechgyn, ieuenctid ac ysgolion Cymru yng Nghaerdydd.

Mae sawl stori yn troi o amgylch trafferthion yn dilyn eira mawr - diolchiadau am gymorth i glirio eira er mwyn cael mynediad ar hyd lonydd, pobl wedi disgyn a brifo, a llun trawiadol o raeadr Ceunant Mawr, Llanberis wedi rhewi.

Gwybodaeth ar ffurf cwestiwn ac ateb am Sianel 4 Cymru, oedd i gael ei sefydlu yn ddiweddarach yn 1982. Drwy atebion i'r cwestiynau megis 'beth yw S4C?', 'pa effaith gaiff S4C ar raglenni Cymraeg?' ac 'a fydd angen prynu set deledu newydd er mwyn derbyn S4C?' down i ddysgu am yr amgylchiadau ar y pryd. Mae hon yn ddogfen hanesyddol bwysig, ac yn hynod ddiddorol wrth edrych yn ôl drwy sbectol heddiw.

Nifer fawr o gyfeiriadau a hysbysebion drwy'r papur ar gyfer 'digwyddiad mawr y flwyddyn', sef ffug eisteddfod bro'r Eco.

---

**Chwefror 1992**
Pris yn 25c.

Stori glawr am ddyfodiad cwmni Euro/DPC i safle Glyn Rhonwy yn nes ymlaen yn y flwyddyn, a'r disgwyl ymlaen am waith sefydlog i'n gweithlu lleol.

Dau ŵr lleol, Aneuryn Jones a Gwynedd Owen, mewn gwisgoedd smart ac yn troi mewn cylchoedd crand tua Lerpwl gyda neb llai na'r cyn-bencampwr snwcer y byd, Steve Davies.


Enwogion byd y snwcer, a Steve Davies

Nifer o lythyrau yn hysbysu darllenwyr bod raliau yn cael eu trefnu yng Nghaerdydd a Llundain er mwyn galw am ddeddf iaith newydd. Daw llythyr arall sy'n annog Cymry lleol i dyngu addunedau i helpu i sicrhau dyfodol i'r iaith (sy'n cynnwys cael mwy na dau o blant gyda llaw!), felly mae yna ddeffroad mawr a diddordeb mewn gwarchod yr iaith Gymraeg.

Cais i lenwi holiadur byr yn cofnodi os oes adar yn pigo caeadau poteli llefrith. Mae'n debyg bod piod wedi dechrau dysgu'r hen arferiad ac yn peri dipyn o broblem.

Hanes bywyd a gwaith Derek Jones, un o ddarllenwyr lleyg Deoniaeth Arfon.

Mae cwmni Targed, y Cyngor Hyfforddiant a Menter, yn cynnig hyfforddiant fel rhan o gynllun 'welcome host' Bwrdd Croeso Cymru. Drwy fynychu seminar


ECO'R WYDDFA
Rhif 179 CHWEFROR 1992 Pris 25c
DAU 'GIW' O FRID
EURO/DPC A'R GYMUNED
AGOR CRONFA I GEFNOGI SGÏWR
TREFN NEWYDD

undydd, byddwch yn derbyn hyfforddiant ar sut i gynnig gwasanaeth o safon uchel a chroeso cynnes i ymwelwyr. Barnwyd ei bod yn angenrheidiol i bobl sy'n gweithio yn y diwydiant ymwelwyr ym mhob rhan o Gymru i dderbyn yr un hyfforddiant er mwyn magu arferion unffurf a chyson o drin ymwelwyr.

Apêl gan wasanaeth Archifau ac Amgueddfeydd Gwynedd am luniau o gyfnod y 1930 ymlaen o bob math o olygfeydd lleol. Roedd angen lluniau o olygfeydd, strydoedd, pobl wrth eu gwaith, adloniant, ysgolion, bywyd cymdeithasol ayb, gyda'r nod o adeiladu cofnod gwerthfawr o fywyd pob dydd yr ardal. Daeth yr alwad gan fod cwricwlwm hanes mewn ysgolion wedi newid a bod mwy a mwy o alw ar yr Archifdy am adnoddau sy'n adrodd hanes diweddar.

Mae cyfyngiadau pandemig Covid-19 yn 2022 yn ei hatgoffa o'r arferion pwysig sydd wedi gorfod cael eu gohirio dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Un o'r rhain yw parti Nadolig ysgolion Brynrefail a Phendalar. Braf iawn, felly, yw darllen adroddiad am barti Nadolig llwyddiannus a hwyliog 1992.

**Chwefror 2002**
Pris yn 40c.




Dirgelwch mawr am yr hyn achosodd ddifrod mawr i'r tir ar lethrau Cefn Drum, gyda thywyrch anferth o dir wedi eu taflu i'r naill ochr a'r llall, gan adael ffosydd newydd i lenwi â dŵr. Ŵyr neb hyd heddiw beth achosodd y difrod.

Parc gwyliau Brynteg yn Llanrug yn ennill gwobr gan yr RAC am y 'Parc gorau ym Mhrydain'. Noddwyd y wobr gan Calor Gas a'i gefnogi gan Fwrdd Croeso Cymru. Derbyniwyd y wobr mewn seremoni foethus yn Llundain, ond cafwyd parti ar gyfer yr holl staff yn ogystal ym Mrynteg.

Bu Haf Thomas o Lanrug yn brysur iawn yn trefnu cyngerdd Nadoligaidd yng nghyntedd adeilad Cyngor Gwynedd yng Nghaernarfon, gan godi'r swm anrhydeddus o £507 ar gyfer Cymorth Cristnogol. Ar dudalen 12 ceir hefyd ysgrif gan gyfnither Haf, sef Jeni Lyn Morris o Ddeiniolen, sy'n portreadu Haf fel 'Cannwyll fy Llygaid'.

Bu deuddeg o blant a'u hathrawon o Chernobyl draw yng nghartref Terry a Mena Macdaid yn Waunfawr yn cael te bach a derbyn anrhegion Nadolig. Roedd y criw o blant draw ar wyliau ym Manceinion, a gan bod criwiau eraill wedi bod ar wyliau yng Nglangwna yn y gorffennol fe wnaed cysylltiad â'r ysgol a'u gwahodd draw i Waunfawr. Bu criw gwau y pentref yn brysur yn gwnio blancedi cynnes yn anrhegion iddynt gael mynd yn ôl adref gyda nhw.


**Haf yn cyflwyno siec i Liz Perkins o Cymorth Cristnogol ar gyfer apêl Affganistan'.**

Sioe Neidio Ceffylau Gogledd Cymru yn cael ei chynnal ar fferm Bryn Derw, Brynrefail. Un o noddwyr y sioe oedd Parc Cartrefi Gwyliau Brynteg. Roedd yn addas iawn, felly, mai dwy o'r enillwyr oedd Kirsty a Tara Chambers yn rnarchogaeth eu ceffylau Brynteg Lad a Brynteg Caramel Cream.

Yn dilyn misoedd o waith paratoi, cynhaliwyd Barti Nadolig Pendalar yn Ysgol Brynrefail. Codwyd gyfanswm gwych o £2,000 yn rhodd i Ysgol Pendalar.

Hysbyseb ar gyfer cyfres ddrama newydd fyddai'n cychwyn ar S4C ym mis Mawrth, sef 'Tipyn o Stâd'. Mae'n debyg bod dilyniant iddi, sef 'Stâd' yn mynd i daro'n sgriniau eleni, 20 mlynedd yn ddiweddarach. Sgwn i be fydd hanes yr hen griw?!

**Chwefror 2012**
Pris yn 50c.

Daeth bri mawr i rai o bobl ac anifeiliaid y fro wrth i Gwmni Ceffylau Ffilm Dolbadarn gael eu dewis i baratoi ceffylau ar gyfer *blockbuster* o ffilm, War Horse. Cafodd llyfr enwog Michael Morpurgo ei drosi'n ffilm gan neb llai na Steven Spielberg. Bu Dylan Jones a'i geffylau yn treulio 5 wythnos yn ardal Basingstoke yn ffilmio, gan chwarae rhannau Almaenwyr yn ogystal a Phrydeinwyr.

Dau o ddisgyblion Ysgol Brynrefail yn serennu ym myd chwaraeon. Cafodd Gruffudd John ei ddewis i garfan o dan 16 oed Cymdeithas Bêl-droed Ysgolion Cymru, a Zoe Wood yn ymuno ag Academi Dringo Gogledd Cymru.




# CHWILAIR CHWEFROR Y CARIADON

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| N | O | L | A | C | G | M | O | R | S | T | A |
| O | B | C | D | R | E | F | C | D | U | N | W |
| D | M | F | E | A | Rh | A | M | E | Y | G | Ph |
| A | E | G | L | O | N | H | B | W | Ch | I | D |
| I | Ch | Y | C | N | A | W | DD | S | A | N | T |
| R | F | R | O | W | L | N | O | L | E | A | M |
| A | O | S | I | N | A | S | U | C | D | L | O |
| C | T | Ff | S | LL | W | Y | G | A | R | U | D |
| Dd | RH | O | S | O | D | H | T | R | C | E | R |
| D | W | Y | N | W | E | N | L | I | Ll | A | W |
| T | N | A | M | A | RH | B | R | A | S | N | Y |
| Y | F | Ng | C | L | O | U | H | D | O | N | P |

| | | |
|---|---|---|
| ANRHEG | YNYS LLANDDWYN | DWYNWEN |
| NAWDDSANT | CALON | FOLANT |
| RHAMANT | CARIAD | LLWY GARU |
| RHOSOD | CARIADON | MAELON |
| SIOCLED | CUSAN | MODRWY |

Cofiwch bod rhai llythrennau dwbl yn Gymraeg, sydd yn llenwi un sgwâr yn y chwilair.

Allwch chi ddod o hyd i un peth nad yw wedi ei gynnwys yn y chwilair? Mi gewch chi'r ateb yn rhifyn nesaf Yr Eco – mwynhewch!

# Atebion i Chwilair Y Flwyddyn Newydd

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| B | O | T | N | O | I | D | Y | R | B | S | Y |
| R | L | W | Ch | M | U | L | Th | A | D | I | L |
| Y | G | W | Y | R | Y | S | T | W | Y | Ll | N |
| S | B | S | Y | A | B | Ff | C | I | L | S | U |
| Th | W | O | L | Dd | T | Ll | A | T | E | Ch | A |
| R | G | N | S | U | Y | I | L | G | D | C | Y |
| E | D | R | P | N | A | N | E | E | I | O | M |
| C | W | E | H | E | Ng | A | N | D | O | D | W |
| L | Ph | N | C | D | O | B | N | E | N | Y | E |
| E | F | N | H | A | P | S | I | A | W | R | L |
| O | J | A | N | U | S | I | G | E | H | Y | Y |
| C | U | H | D | Y | W | L | I | R | A | M | Dd |

Ymddiheuriadau - roedd dau beth (nid un) ar goll yn Chwilair mis Ionawr **HELA'R DRYW** a **PLYGAIN**. Tybed faint ohonoch ddaeth o hyd i'r ddau?

## LLANRUG

**Merched y Wawr**
Ar 14eg Rhagfyr, dymunwyd Blwyddyn Newydd obeithiol i bawb yn 2022 gan ein Llywydd Nan Humphreys. Mwynhawyd orig hyfryd i ddathlu, 'Nadolig Ddoe a Heddiw', gyda darlleniadau gan Phyllis, Bethanne ac Eryl, Meirwen, Anwen, Ann Thomas, Mair ac Ann Ifans ynghyd â charolau traddodiadol a chyfoes gyda Megan yn cyfeilio. Casglwyd £112 ar y noson tuag at Fanc Bwyd Arfon. Llongyfarchwyd Rhiannon gyda'i chroesbwyth godidog ar ennill yr ail wobr yn y Sioe Aeaf.

Anfonir ein cydymdeimlad llwyraf at Sioned a Trystan Larsen a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli Sylwen Lloyd Davies – mam, nain, hen nain a ffrind i lawer. Roedd yn un o aelodau gwreiddiol Cangen y Parc a bu'n llysgennad eithriadol i'r mudiad. Mae ein dyled yn fawr iddi, yn enwedig am ei harweiniad wrth agor y Ganolfan Genedlaethol. Bu'n Llywydd Cenedlaethol o 1998 – 2000 ac ers 2009 bu Sylwen yn Llywydd Anrhydeddus. Cyfrannodd yn helaeth i ddiwylliant Cymru gan 'wneud y pethau bychain oedd yn golygu cymaint'.

Oherwydd yr aflwydd Covid 19, a hynny ar ei waethaf yn y fro, ni chynhaliwyd cyfarfod Nos Fawrth, 11eg Ionawr. Hyderir y cawn gwmni rhadlon Arwel, Hogia'r Wyddfa rhywbryd eto yn 2022. Bydd Bethanne yn sicr o yrru e-bost i bawb ar gyfer cyfarfod mis Chwefror, gan obeithio bydd y don Covid 19 ar drai ac y bydd yn ddiogel i ni gyfarfod. Edrychir ymlaen at eich gweld i gyd yn fuan – tan hynny – cymrwch ofal a chadwch yn saff.

Dyma'r bedair aelod o gangen MyW Llanrug a gystadlodd yn Sioe Aeaf, Llanelwedd 2021. O'r chwith i'r dde: Rhiannon Roberts (ennill yr 2il wobr), Ann Lloyd Griffith, Julie Jones a Bethanne Williams.


Ann Lloyd Griffith


Julie Jones a Bethanne Williams


Rhiannon Roberts



**Capel y Rhos**
Oedfaon Chwefror:
6ed Chwefror – I'w drefnu
13eg Chwefror – Parch Megan Williams
20fed Chwefror – Mr Richard Parry Jones
27ain Chwefror – Parch Gwenda Richards


**Diolchiadau**
Dymuna Wyn, Elizabeth a Jane a theulu'r diweddar Thomas William Hughes (Thomos Owen) Hafan Elan, ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd wedi iddynt golli ewythr annwyl yn ddiweddar.

**Dymuniadau pen-blwydd**
Anfonir dymuniadau gorau am ben-blwydd hapus i Menna Williams, Fferm Minffordd, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 80 oed. Llongyfarchiadau i chi ar y dathliad arbennig.

**Ymddeoliad**
Dymuniadau gorau am ymddeoliad hir a hapus iawn i Siân Burston, Bryniau Fawnog. Deall y byddwch eich dwy yn cael crwydro dipyn rwan – mwynhewch a phob bendith.

**Profedigaethau**
Estynnwn gydymdeimlad diffuant yn dilyn marwolaeth Gareth Thomas, 10 Stad Afon Rhos, yn 75 mlwydd oed. Bu Gareth yn wael am amser hir iawn ac wedi dioddef yn dawel. Colled enfawr i Jennifer ei wraig, Nigel, Iola a Bryn y plant a'u teuluoedd. Bu chwith mawr i'w wyrion ac wyresau ar ôl eu taid hoffus, a hefyd llu o ffrindiau a theulu estynedig.

Yn dilyn gwaeledd hir iawn, bu farw Dorothy Carter, Didfa. Gwraig annwyl i Gordon a fu mor ofalus amdani. Cofiwn at ei phlant a'i brodyr a chwiorydd (teulu Pleming Deiniolen) a'i holl ffrindiau.



Tyddyn Teg
Bwyd - Tir - Pobl
LLYSIAU LLEOL FFRES
Ymunwch â'n cynllun llysiau!
Dewch i'n siop!
- Rydym bob amser gyda llysiau blasus a ffres o'n caeau a'n twneli polythen.
- Rydym wedi ein lleoli ym Methel ar y ffordd tuag at Llanrug.

Cysylltwch â ni: 07599 813777
info@tyddynteg.com
Neu ewch i'n gwefan: www.tyddynteg.com


Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk
Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
• PRIODASAU •
Ffôn - 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk

# Ysgol Gynradd Llanrug









**Croeso'n nôl**
Rydym yn falch o gael dod yn ôl i'r ysgol a gweld ein ffrindiau. Dyma ddosbarth y Garn yn gwneud yn fawr o'r tywydd sych.

**Y Nadolig**
Dyma ychydig o luniau dathlu'r Nadolig!
Cafwyd llawer o hwyl yn ystod yr wythnos olaf gyda Siôn Corn yn ymweld â ni ac yn rhannu anrhegion. Bu'r plant yn brysur yn creu cardiau ac addurniadau.










**Yr Urdd**
Mae clwb chwaraeon yr Urdd yn cael ei gynnal bob nos Fawrth ar gyfer blynyddoedd 3, 4, 5 a 6, 3:30-4:15 am 5 wythnos. £10 ydy'r gost.





**Foelas** Bu i blant y Cyfnod Sylfaen wneud lluniau a'i cyflwyno i'r henoed yng nghartref Foelas.

# Gwylio Adar yr Ardd - 28-30 Ionawr


Mae ymgyrch fawr yr RSPB i drio cael darlun o iechyd rhywogaethau adar yr ardd yn rhedeg eto eleni ar benwythnos olaf Ionawr. Gobaith yr elusen yw y bydd cymaint o bobl â phosib yn fodlon rhoi awr o'u hamser unrhyw bryd yn ystod y 3 diwrnod rhwng 28ain a'r 30ain o Ionawr i gyfri'r adar sy'n glanio yn eu gardd. Peidiwch a phoeni os nad oes gennych ardd fawr ddeniadol, gallwch wylio'r adar sy'n glanio ar eich silff ffenest hyd yn oed.

Mae'n drychinebus ein bod wedi colli 38 miliwn o adar ar draws Prydain dros yr hanner canrif ddiwethaf, felly mae'n hanfodol ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i edrych ar ôl y rhai sy'n weddill. Drwy gadw cofnod o ba rywogaethau o adar, a sawl un ohonynt, sy'n glanio yn eich gardd dros gyfnod o awr, fe all helpu'r RSPB i gael darlun o 'iechyd' byd yr adar ar draws holl ardaloedd Prydain. Mae'r astudiaeth hon yn y gorffennol wedi bod o gymorth mawr i roi rhybudd buan bod niferoedd rhai rhywogaethau yn brysur leihau, ac wedi tanio'r golau glas bod angen symud i warchod cynefinoedd yr adar hynny.

Yn 2021 fe gymerodd fwy na 1 miliwn o bobl ran yn ymgyrch Gwylio Adar yr Ardd, ac mi fyddai'r RSPB wrth eu boddau petai rhagor na hynny yn cymryd rhan yn 2022. Maent yn cynhyrchu pecyn gwybodaeth sy'n cynnwys siart o luniau adar y gallwch ddisgwyl eu gweld, a ffurflen i gadw cofnod. Mae popeth ar gael yn ddwyieithog, felly mae'n adnodd fendigedig i'w ddefnyddio yn enwedig gyda plant a phobl ifanc. Dyma ffordd hwyliog o ddysgu'r enwau tlws sydd gennym yn y Gymraeg - mae turtur dorchog yn well na *collared dove* dydi!

Mae'r wybodaeth am sut i gymryd rhan, ac i gael gafael ar y pecyn gwybodaeth i'w lawrlwytho i gyd ar wefan yr RSPB - rspb.org.uk/gwylioadar, neu gallwch ofyn iddynt anfon pecyn yn y post i chi. Mae llawer o wybodaeth yn y pecyn ac ar y wefan am sut y gallwch ddenu adar i'ch gardd, a gallwch wrando ar ganeuon y gwahanol adar drwy'r wefan hefyd. Os ydych chi'n byw ar y gwefanau cymdeithasol, yna dilynwch #GwylioAdarYrArdd.

Pam na wnewch chi ymuno eleni?






**Sut i gymryd rhan**

Dewiswch awr ble y cewch chi lonydd i wylio, ia, haws dweud na gwneud ella! Gyda phapur a beiro wrth law, cadwch gofnod o'r adar sy'n glanio yn eich gardd neu lecyn o dir. Dim ond yr adar sy'n glanio y dylech eu cynnwys, nid y rheini sy'n hedfan heibio. Cyfrifwch y nifer uchaf o bob rhywogaeth aderyn a welwch ar unrhyw un adeg, fel arall fe allech chi gyfrif yr un aderyn ddwywaith. Er enghraifft, os gwelsoch chi grŵp o bedair drudwen, a thua diwedd yr awr eich bod wedi gweld dwy ddrudwen gyda'i gilydd, ysgrifennwch pedwar fel eich cyfrif terfynol.

Beth bynnag a welsoch chi – hyd yn oed os nad oedd unrhyw beth o gwbl – rhowch wybod i'r RSPB. Po fwyaf o bobl sy'n cyflwyno eu canfyddiadau, gorau fydd y darlun o sut mae hi ar adar yr ardd. Os nad ydych yn gallu cyflwyno eich canlyniadau ar-lein, llenwch y ffurflen a'i dychwelyd drwy'r post.

Hyd yn oed os na fedrwch chi gymryd rhan, gallwch wylio ar y sgrin. Drwy gydol penwythnos hir Gwylio Adar yr Ardd, bydd ffilmiau yn fyw ar sianel YouTube yr RSPB. Gwyliwch am sylwebaeth fyw o'r gwarchodfeydd natur ledled y DU, yn ogystal â chyfweliadau a sgwrs â gwesteion arbennig a naturiaethwyr.

Cofiwch bod y deunyddiau i gyd ar gael yn Gymraeg a Saesneg, felly gora pa fwyaf o ffurflenni ymateb Cymraeg gaiff eu dychwelyd. Pob hwyl gyda'r gwylio!




# Yr Urdd ar Gof a Chadw

I gyd-fynd gyda datganiad cynlluniau'r canmlwyddiant mae cartref swyddogol archif yr Urdd, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, wedi croesawu Mistar Urdd i ymweld â'i archif ei hun ac yn awyddus i atgoffa pawb o bwysigrwydd archifau fel cofnod hanesyddol o bwys.

Gellir dysgu am bob agwedd o waith yr Urdd dros y ganrif ddiwethaf yn archif y llyfrgell yn Aberystwyth lle mae cofnod o'r cyfan ar gael. Ewch i chwilio yn https://archives.library.wales/index.php/archifau-urdd-gobaith-cymru-2;isad?sf_culture=cy

Neu chwiliwch y catalog https://darganfod.llyfrgell.cymru/ am eitemau perthnasol eraill yn y casgliadau.

Dywedodd Pedr ap Llwyd, Prif Weithredwr a Llyfrgellydd y Llyfrgell Genedlaethol: "Mae'r Urdd yn parhau i fod yn fudiad cenedlaethol anhepgorol sy'n dal i gyfoethogi bywydau plant a phobl ifanc a hyrwyddo'r Gymraeg yr un pryd, a hynny canmlynedd ers iddo gael ei sefydlu. Ni ellid mesur maint cyfraniad y mudiad i'n bywyd cenedlaethol a braf yw medru dweud fod llawer o waith y



# Dathlu cariad

**Fyddwch chi'n prynu anrheg neu gerdyn i'ch cariad ar y 25ain o Ionawr neu ar y 14eg o Chwefror?**

Mae'n rhaid i mi gyfaddef pan oeddwn i'n ifanc a ffôl mai Sant Ffolant oedd yn bwysig ac mi fyddwn yn disgwyl yn obeithiol am gerdyn, heb wybod wrth gwrs pwy oedd wedi ei yrru. Dwi'n siŵr byddai Mam yn anfon ambell un, mewn tosturi, rhag ofn na fyddwn i'n derbyn yr un cyn mynd i'r ysgol … Roedd gen i ffrind oedd yn cael ei phen-blwydd ar y 14eg Chwefror ac mi fyddwn yn dychmygu'r postmon yn meddwl ei bod hi'n rêl un, gan fod gymaint o gardiau'n cael eu danfon ati… A deud y gwir doedd Santes Dwynwen ddim yn rhan o fy nghalendr o ddathliadau, ond mae pethau wedi newid bellach, (a minnau'n llai ffôl) a cherdyn Santes Dwynwen fyddai'n disgwyl i'w dderbyn bellach, er byddai'n gwybod yn iawn pwy fydd wedi ei anfon. Dyn a'i helpo os na fydd o wedi cofio….

## Sant Ffolant

Yn ôl yr Amgueddfa Genedlaethol, "Mae'r neges/cerdyn Ffolant gyntaf yn Lloegr yn dyddio o 1684…. Er hynny rhaid oedd aros hyd at y 19eg ganrif nes i'r arfer o anfon cardiau Ffolant ddod yn boblogaidd gyda'r enghreifftiau cynharaf o Gymru yn deillio o ddechrau'r ganrif honno."

Yn ôl y chwedl, offeiriad o Rufain oedd Sant Ffolant. Cafodd ei ddienyddio gan yr Ymerawdwr Claudius II am ei fod yn Gristion tua 269. Cyn iddo gael ei ddienyddio adferodd olwg merch ceidwad y carchar, cyn arwyddo nodyn o ffarwel iddi gyda'r geiriau, 'oddi wrth dy Valentine'. Felly mae pawb drwy'r byd datblygedig yn dathlu traddodiad Eidalaidd drwy anfon cardiau ac ati ar 14eg o Chwefror, sef y diwrnod sydd wedi ei gadw er cof am Ffolant ac i feddwl yn ddwys am bethau sy'n brifo'n calonnau ni.

Yn araf daeth traddodiad Ffolant i ben yng Nghymru erbyn dechrau'r 20fed ganrif, a daeth chwedl Dwynwen yn fwy poblogaidd yng Nghymru erbyn ail hanner yr 20fed ganrif.

Erbyn hyn mae llawer o Gymru yn meddwl mai Santes Dwynwen ydy santes y cariadon i ni yng Nghymru, ac ein bod falle'n bradychu'n cenedl wrth edrych 'dros y ffin' at Sant Ffolant."

## Santes Dwynwen

Tywysoges Gymreig o'r 4edd ganrif oedd Dwynwen. Syrthiodd mewn cariad â Maelon, ond roedd ei thad eisoes wedi trefnu iddi briodi tywysog. Roedd Dwynwen yn drist iawn a rhedodd i ffwrdd i'r goedwig gan ofyn i Dduw am help. Cafodd hylif hud melys gan angel ac fe drodd Maelon druan yn golofn o rew.

Cafodd dri dymuniad gan Dduw, un oedd dadmer Maelon; yr ail oedd gofyn i Dduw helpu cyplau oedd yn caru ei gilydd a'r trydydd oedd na fyddai hi byth yn priodi. Bu'n lleian am weddill ei hoes ar Ynys Llanddwyn. Roedd ei stori hi o ddioddefaint yn ei gwneud yn addas i fod yn santes y cariadon yng Nghymru. Felly ar y 25ain o Ionawr bydd cariadon Cymru yn dathlu trwy dderbyn anrhegion a chardiau.

Dechreuodd yr arfer o yrru cardiau Santes Dwynwen yn y 1960au, ond mae wedi cymryd dros 50 mlynedd i'r arfer hwn ddod yn fwy poblogaidd ymysg y Cymry.

Felly cerdyn ag enw pa sant arno y dyliech chi ei anfon?

Y gwir yw bod cardiau cyffredinol ar gael bellach sy'n lladd dau dderyn efo un garreg e.e. cerdyn efo 'Caru ti' arno, sy'n addas ar gyfer Diwrnod Santes Dwynwen a Diwrnod Sant Ffolant. Does dim rhaid i chi ddewis rhwng y ddau sant gallwch ddathlu'r ddau neu ddewis un ohonynt, dim ond penderfynu pa ddyddiad fyddwch chi'n dathlu.

## Anrhegion

Un anrheg draddodiadol iawn yw'r **llwy garu**. Os ewch i'r Amgueddfa Genedlaethol mae'n debyg i'r llwy hynaf gael ei cherfio yn 1667, ond efallai bod y traddodiad yn hŷn na hynny. Byddai'r llwy yn cael ei rhoi fel arwydd o angerdd ac yn cael ei defnyddio wrth y bwrdd bwyd, ond yn raddol daeth yn llawer mwy addurniadol ac yn llai tebygol o gael ei defnyddio fel teclyn bwyta.

Ceir amrywiaeth o siapiau a phatrymau gwahanol megis:

**calonnau** (symbol cariad) ac mae'n bosib bod llwy â dwy galon yn dangos cariad cytûn rhwng y crefftwr a'r derbyniwr.

**coma neu siâp persli** – dywedir ei fod yn cynrychioli'r enaid a serch dwys.

**Peli mewn cawell** – gall bod y peli wedi'u cerfio mewn cawell yn cynrychioli'r nifer o blant y gobeithiai'r cerfiwr eu cael, ond gallant hefyd gynrychioli gŵr sy'n gaeth gan gariad.

**diemwntau** – yn dymuno bywyd llewyrchus ac yn addewid i ddarparu'n dda ar gyfer eich cariad.

Dyma flas o'r hyn sydd i'w gweld, mae mwy i'w cael. Erbyn heddiw dosberthir llwyau caru bach yn aml fel ffafrau priodas.

## Pa bethau arall sy'n cael eu rhoi fel anrhegion?

Mae blodau bob amser yn plesio (rhosod cochion efallai) neu beth am siocledi (gallwch rannu'r rheiny efo'ch cariad!). Erbyn hyn mae digon o ddewis mewn siopau lleol neu ar y rhyngrwyd…

Cofiwch does dim rhaid gwario lot o arian i ddangos eich cariad - beth am bryd bach rhamantus adref, cig a/neu lysiau lleol, glasiad bach o win a siocled i orffen y pryd… Rhatach a llawer gwell…

Pa bynnag ffordd byddwch yn dathlu - mwynhewch!



mudiad wedi'i gofnodi yma yng nghasgliadau'r Llyfrgell, mewn archif, llyfrau, sain a delweddau symudol. Mae'r cyfan yn brawf o weithgaredd mudiad y dylem ni i gyd fod mor falch ohono. Braint o'r mwyaf ydy cael bod yn rhan o ddathliadau canmlwyddiant yr Urdd a chael cwrdd â Mistar Urdd ei hun, un o'm harwyr i!"

# Ar ben arall i'r lein

Dyma ni, dechrau blwyddyn newydd a be sydd o'n blaenau tybed? 'Rydym mewn un ffordd yn ffodus dros ben ein bod ni ddim yn gwybod be sydd i'w ddod yn 'de! Mae hefyd yn angenrheidiol disgwyl am ryw ychydig i weld os bydd yr hen Siôn wedi gallu gweld ei ffordd yn glir i allu caniatáu fy nymuniadau am anrhegion. Ond rhywsut neu gilydd tydw i ddim yn gweld hyd yn oed yr hen Sionyn yn gallu cael dylanwad ar Gyfoeth Naturiol Cymru a Heddlu Gogledd Cymru i weithredu i atal y postsio difrifol sy'n difetha, wel nid yn unig dyfroedd y fro hon ond dyfroedd led led Cymru.

Yn ystod cyfnod y Nadolig mi fyddaf yn cysylltu â chymdeithon o'r byd pysgodfaol led led y wlad, a'r brif gŵyn yw'r tor-cyfraith difrifol sy'n gyffredinol ar ddyfroedd Cymru. Yn anffodus does dim ffordd i ddatrys hyn, gan fod yr holl beth yn cael ei anwybyddu gan yr awdurdodau. Mae'n amlwg nad yw pryderon y cyhoedd yn cyfrif am ddim y dyddiau yma, a tydw i ddim am fynd ddim pellach ar hyn neu mi fyddaf yn troedio'r llwybr politicaidd. Yn anffodus, canlyniad o bosib anwybyddu pethau fel hyn yw bydd rhywun yn cael rhyw anaf neu gilydd wrth ddod ar draws rhai yn ymddwyn yn y fath fodd, ac wedyn bydd cryn rhincian dannedd a chwilota am bob math o esgusodion gan yr awdurdodau i geisio egluro paham fod hyn wedi digwydd.

2021 oedd yr ail flwyddyn i'r Pwyllgor Blynyddol gael ei ganslo felly cyflwynwyd y tlysau ar 11ed Rhagfyr yng Nghwt Crawia.

**Tarian J Vyrnwy Evans am y gwyniedyn trymaf – i un o'r aelodau ifanc sef Adam Burton, Caernarfon, da iawn dalia ati. Yn mynd gyda'r darian mae bocs o blu wedi eu clymu er cof am Vyrnwy gan ei gyfaill Bill Walker, Gresford. Cofiwch mae Adam yn dipyn o glymwr ei hun, ac efallai fod busnes llewyrchus yn y maes yma o'i flaen.**



Tlws Tommy Lovell i'r aelod/aelodau sydd wedi gwneud cyfraniad arbennig yn ystod y tymor.



**Am 2021 – John Thomas, Deiniolen a Brynley Pritchard, Caernarfon**



**Tarian W J Williams – eog trymaf – Ian Williams. Llanberis**





Gan fy mod wedi wedi amlinellu'r broblem ddifrifol gyda potsio, mae'n anodd iawn clywed dim newydd calonogol o gwbwl sydd i wneud â'n dyfroedd, nid yn unig yma yng Nghymru ond yn gyffredinol drwy Loegr hefyd. Mae fel petae ein llywodraethau wedi rhoi'r ffidil yn y to gyda glanweithdra a threfn. Heddiw (13/1) ar newyddion cyffredinol y BBC 'roedd cryn sylw yn cael ei roi i'r union beth, sef carthffosiaeth, llygredd o'r byd amaethyddol a sbwriel cyffredinol yn cael ei daflu i'r afonydd a llynnoedd, mae hyn yn warthus led led y Deyrnas Gyfunol. Dyma lun bagiad o sbwriel gafodd ei dynnu o'r Seiont yn Crawia yn ddiweddar.

Un tipyn o newydd da yw fod cwmni 1st Hydro wedi cwblhau'r gwaith o greu man bwrw grawn newydd i'r torgoch y Afon y Bala. 'Rydym yn disgwyl sylwadau CNC ar effeithlonrwydd y gwaith. Yn ôl be dwi'n ddeall, yn answyddogol wrth gwrs yw bydd yn rhaid ail edrych ar be sydd wedi ei gyflawni. Cawn weld be a ddaw.

Er yr holl fygythiadau sydd o'n cwmpas, mae cryn ddisgwyl i'r tymor newydd agor ei ddrws.



3ydd Mawrth yw diwrnod agoriadol yr afonydd, mi fyddai allan o gwmpas amser cinio, sef amser cynhesaf y diwrnod, mae'n sicr bydd Petrisen Corff main yn rhywle ar y blaen lleinyn. Ble i fynd, wel yr amser yma o'r flwyddyn mae pyllau'r Finiog werth eu trio, cofiwch fentro i lawr at Lyn Harri Parri, neu os oes ddim awydd cerdded mor bell, wel yna mae Llynnoedd Engan a Distaw i lawr yng Nglan Gwna yn lefydd werth chweil. Cofiwch yn y fan yma mae bosib cael tipyn o fraw drwy rhyw hen eog neu wyniedyn go fawr sydd ar ei ffordd yn ôl i'r môr afael yn eich pluen, a dyna syrcas ydi pan mae hyna yn digwydd a chwithau'n 'sgota'r gêr fain.

Diwrnod agoriadol y llynnoedd yw 20ed Mawrth, ac yn bendant y lle i fynd ydi Padarn, yn enwedig o ochr lein bach y llyn, ond yn anffodus ni fydd y cychod allan tan 1af Ebrill a dyma'r diwrnod hefyd pan fydd Llyn y Dywarchen yn eich croesawu, ond cofiwch mwyaf tebyg mi fydd yn eithriadol o oer yn yr uchel-fan yma, felly rhyw Booby go ddisglair ar flaen lleinyn byr gyda lein sy'n suddo yn sydyn. Yndi mae yn gweithio a mae brithyll yr enfys wedi gaeafu yn wobr werth ei chael ar hen badell yn disgwyl amdanynt!

Oes mae tipyn o bysgota ar gael drwy ymaelodi â'r gymdeithas, os mentraf ddweud, am bris ofnadwy o resymol, fel mae pethau y dyddiau yma. Pris oedolion yw £185, am ddim hyd at 12 oed ac o hyn at 17 y pris yw £20, tipyn mwy rhesymol na xbox! Mae gwahanol gonsesiwn ar gael hefyd rhwng 18 a 22 oed. Tydi'r prisiau ddim wedi newid ers 10 mlynedd, hyn i gyd yn bosib drwy'r incwm sy'n dod o'n llety ymwelwyr ym Mhontllyfni, da ynde! Cofiwch mae oddeutu 40 milltir o 'sgota ar gael ar dair afon yn ogystal a phump llyn.

**Huw Price Hughes**

# Garddio



**CHWEFROR**
Fel arfer, yn ystod y mis hwn mae arwyddion fod y gwanwyn yn agosáu. Mae rhai o'r bylbiau yn ymateb i lefelau uwch o oleuni ac yn deffro a chan fod y tywydd yn cynhesu mae rhai anifeiliaid yn deffro o'u gaeafgwsg. Yn anffodus mae ambell i aderyn a gwiwer lwyd yn codi'r bylbiau yma (er nad ydw i wedi dal yr un o'r cnafon eto) - felly byddwch yn wyliadwrus ac ail-blannwch unrhyw un sydd wedi cael ei godi cyn i'r gwreiddiau sychu! Mae digonedd i'w wneud dan do wrth gynllunio ar gyfer y tymor sydd i ddod. Y tu allan, mae'n amser i docio llwyni a phlanhigion sy'n dringo, megis Wisteria a llwyni bythwyrdd. Erbyn meddwl mi allwn ni ddal cael eira yn ystod y mis bach (neu ym mis Mawrth) ar y llethrau hyn. Peidiwch felly a bod yn rhy barod oherwydd ambell i ddiwrnod braf i blannu planhigion newydd na thyfu hadau, cadwch at blannu planhigion gwreiddiau noeth (*bareroot*) a thasgau cynnal a chadw sylfaenol. Os ydan ni'n cael eira cofiwch frwsio eira trwm oddi ar ganghennau llwyni, rhag ofn iddynt dorri dan y pwysau.

**Tasgau mis Chwefror**
1. Pan fo'r pridd yn weddol sych, paratowch y gwely ar gyfer rhai llysiau. Gallwch blannu rhai hadau yn y tŷ gwydr. Os yw'n ddigon sych a heb rewi gallwch ddechrau chwynnu cyn i'r planhigion fu'n cysgu dros y gaeaf ail-ymddangos.
2. Gosodwch eich tatws hadyd i egino. Mae bocsys wyau yn ardderchog ar gyfer hyn - ac mae dewis tatws o faint wyau yn syniad da. Cofiwch osod y llygaid ar i fyny. Mi ydw i wedi cadw rhai '*Pink Fir Apple*' ers llynedd ac yn edrych ymlaen at weld os gai'i cystal cnwd a'r llynedd.
3. Cychwynnwch dyfu'r cloron (*tubers)* dahlia mewn tŷ gwydr heb wres.
4. Rhowch rwyd ar y llysiau a'r ffrwythau er mwyn cadw'r adar oddi arnyn nhw (mae hefyd yn stopio cath fawr goch rhag tyrchio yn y pridd yn ein gardd ni!).
5. Gallwch docio unrhyw lwyni sydd wedi blodeuo dros y gaeaf.
6. Rhannwch fylbiau eirlysiau a phlannwch nhw tra bod y gwyrddni yn dal arnyn nhw.
7. Tociwch y Wisteria. Mae'n amser da hefyd i docio'r coed rhosod (gan gofio clirio'r darnau rydych wedi eu tocio sydd ar neu wrth ymyl y goeden, i leihau'r siawns o'r smotyn du (*blackspot*) cyn rhoi taenfa (*mulch*) o dail fferm sydd wedi pydru'n dda o'u cwmpas.
8. Gallwch dorri llwyni coed bythwyrdd a thacluso rhai eraill.
9. Golchwch eich potiau a phlanwyr hadau, os nad ydach chi eisoes wedi gwneud hynny. Wnes i gychwyn yn dda ddiwedd yr haf, ond mae yna dal dipyn ar ôl gafodd eu taflu i'r sied achos mod i wedi 'laru ar y gwaith…
10. Os yw'n rhy oer a gwlyb i fynd allan i'r ardd beth am gymryd toriadau o'r cactws Nadolig (schlumbergera) sy'n hawdd i'w tyfu o doriadau? Maent yn byw am flynyddoedd ac yn harddu'r tŷ ym misoedd oer y gaeaf. Tynnwch un neu ddau ddarn o goes y cactws gan ei droi a'i dynnu yn ofalus. Plannwch nhw at eu hanner (gyda'r ymylon pigfain yn wynebu at i fyny) mewn pot o gompost toriadau graeanog. Dyfriwch yn gynnil gan eu cadw'n eithaf cynnes ar tua 20C (68 F) ond heb fod yn wyneb yr haul. Os ydynt wedi gwreiddio ymhen rhyw fis neu ddau gallwch eu potio'n unigol i dyfu ymlaen.

**Blodau'r Gaeaf**
Er gwaetha dyddiau byr ac eira cynnar a rhew, mae coed a phrysgwydd wedi blodeuo. Dyma azaelea sydd wedi penderfynu blodeuo acw ers dechrau mis Ionawr.

Dyma ddeg planhigyn sy'n codi calon ar yr adeg hon o'r flwyddyn.
**Chimonanthus** – Blodau melyn clir. Mae mwy o flodau ar ôl haf cynnes. Mae'n tyfu hyd at 2 fedr (6 troedfedd).
**Cornus 'Golden Glory'**– Mae hwn yn cynhyrchu llawer o flodau, ffrwythau coch a deiliach porffor yn yr Hydref. Tua 5 medr (15 troedfedd)
**Cornilla** – Mae hwn yn blodeuo am amser hir ond ar ei orau nawr. 1 medr (3 troedfedd)
**Hamamelis x intermedia 'Barmstedt Gold'** – Math sy'n tyfu'n unionsyth sy'n tyfu i tua 4 medr (12 troedfedd) o uchder. Blodau lliw aur dwfn gyda phersawr ysgafn.
**Mahonia 'Underway'** – Mae hwn ychydig yn fyrrach na'r gweddill o'r teulu
- blodau syth ar bigau hir yn drawiadol. Tua 3 medr (10 troedfedd)
Mae gan y 5 uchod flodau melyn, fel nifer o flodau'r gwanwyn.
**Erica 'Springwood White'** – Mae'r grug yma'n dipyn o ffefryn, yn lliwgar a dibynadwy a heb fod yn ddibynnol ar bridd asid.
**Daphne** – Un o'r goreuon o'r prysgwydd persawrus, a blagur coch yn agor i flodau mawr gwyn. Ychydig dros 3 medr (8 troedfedd)
**Skimmia Kew Green** – Cysylltwn Skimmia gydag aeron coch ond mae gan hwn lawer o flodau gwyn persawrus. 1 medr (3 troedfedd)
**Viburnum Bodnantense 'Dawn'** – Blagur coch-binc sy'n agor i sypiau toreithiog gwyn ag ymylon pinc, sy'n gwrthsefyll rhew.
**Viburnum Tinus Gwenllian** – Mae'n fythwyrdd gyda blagur pinc tywyll yn newid i flodau gwyn ac wedyn fe geir aeron glas-ddu, weithiau ar yr un adeg. Tyfwyd yn Kew tua chanol y ganrif ddiwethaf.
**Ffaith ddiddorol:** Yn ogystal â dathlu Dydd Santes Dwynwen ddiwedd mis Ionawr a dathlu Dydd Sant Ffolant ar y 14eg Chwefror, ar y 14eg ceir lansiad Wythnos Genedlaethol Bocsys Nythu(nestboxweek.com). Mi ydan ni newydd roi dau focs nythu newydd i fyny yn yr ardd gefn at yr un arall sydd yno (chwythodd un i lawr ddechrau'r gaeaf ac mi oedd nyth titw tomos ynddo fo) Newyddion da, mae titw tomos eisoes wedi bod yn busnesa yn un ohonynt. Yn ôl pob sôn mae'n cymryd ychydig o amser i'r adar bach weld ac ymgynefino efo darpar dŷ newydd – felly beth amdani?
***Rhosyn Mynydd***






Meddwl enwi'r rhain yn Tŷ Hen, Tŷ Canol a Tŷ Pellaf…

SIÂN GWENLLIAN
AELOD O SENEDD CYMRU DROS ARFON



01286 672076
8 Stryd y Castell Caernarfon
sian.gwenllian@senedd.cymru
Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Gomisiwn y Senedd, o gronfeydd cyhoeddus

# Gaeaf Llawn Lles a Llyfrau



Annog plant a phobl ifanc i enwebu a rhannu llyfrau sy'n gwneud iddyn nhw deimlo'n well ydi nod ymgyrch Gaeaf Llawn Lles, sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru.

Cafodd plant a phobl ifanc eu gwahodd i enwebu'r llyfrau sydd wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i sut maen nhw'n teimlo. Ar sail yr enwebiadau, bydd rhestr hir genedlaethol o lyfrau Cymraeg a Saesneg yn cael ei chyhoeddi erbyn diwedd mis Ionawr, wrth i lu o ddigwyddiadau a gweithgareddau gael eu lansio ar-lein ac mewn llyfrgelloedd.

Mae llyfrgelloedd cyhoeddus yn ymuno a'r fenter trwy lansio ymgyrch i hyrwyddo'r gwahaniaeth sicr y gall darllen ei wneud i fywydau pobl ifanc a phwer llyfrgelloedd cyhoeddus i'w cefnogi.

"Mae pobl ifanc wedi cael amser mor anodd yn ystod y pandemig, ac mae eu llyfrgell yn lle delfrydol i ddechrau os ydyn nhw'n newydd i'r gymuned neu eisiau dychwelyd i'r gymuned ar ôl blwyddyn neu ddwy mor anodd," meddai Nicola Pitman, cadeirydd Cymdeithas Prif Lyfrgellwyr Cymru ac arweinydd llyfrgelloedd ar yr ymgyrch hon.

"Mae croeso i bawb yn eu llyfrgell beth bynnag fo'u hoedran, cefndir, her neu allu, ac mae'r hyn sydd y tu mewn (gan gynnwys y miloedd o lyfrau sain, print ac ar-lein) yn perthyn i bawb, yn gallu agor bydoedd newydd a rhoi profiadau hudolus," ychwanega Nicola. "Maen nhw'n dod i weld eu llyfrgell fel lle diogel, cyfeillgar i archwilio hobïau, diddordebau ac uchelgeisiau a chysylltu ag eraill. Rydyn ni'n gobeithio gallu dangos hynny yn ystod misoedd y gaeaf ac rydyn ni'n llawn cyffro am y gwahaniaeth y gall ei wneud."



# Blodau'r Flwyddyn Newydd

Ar y cyntaf o fis Ionawr 2022 roedd hi'n ddiwrnod digon sych i ddechrau fy ngwaith ymchwil i ba blanhigion bydda i'n gweld yn blodeuo yn y chwe diwrnod cyntaf o'r flwyddyn. Gan roeddwn i braidd yn brysur efo gormod o bethau eraill penderfynais fynd bob yn ail ddiwrnod a hefyd cadw'r gwaith ymchwil tu fewn i ffiniau Gŵyr. Yn yr wythnosau yn arwain at y flwyddyn newydd roeddwn i wedi treulio amser yn mynd trwy *Lyfr Natur Iolo* ac roedd y profiad yn dweud wrthyf am beidio disgwyl gormod - dim ond rhestr o 11 oeddwn i'n gallu creu. Ond roeddwn i'n sicr o gael un.

Anelais am Benmaen a pharcio mewn lle tu ôl i'r eglwys. Cyn i mi adael y car roedd y planhigyn gyntaf ar fy rhestr - yr eithin. Diolch byth am yr eithin! Cerddais i fyny ochr Cefn Bryn a chofiais aros i edmygu'r olygfa tu ôl i mi llawer gwaith, islaw roedd bae'r Tri Chlogwyn, y bae sydd wedi cael ei gyfrif fel un o'r harddaf yn y byd. Dw i mor ffodus mod i'n gallu mwynhau'r olygfa unrhyw amser trwy'r flwyddyn. Cyrraedd y pen a chroesi'r ffordd i edmygu moryd yr afon Llwchwr ar ochr ogleddol Penrhyn Gŵyr. Yn fy mhen mae llun o ddŵr yn byrlymu trwy greigiau calchfaen yn agos at Gastell Carreg Cennin a dyma'r un dŵr wedi cyrraedd y môr. A diolch i un o deithiau Cymdeithas Edward Llwyd am y darlun yna. Mae'n rhaid dweud fy mod wedi cael pleser ar y daith ac wedi mwynhau bod allan yn yr awyr iach ond er hynny, dim ond yr eithin oedd ar fy rhestr. Mae'n rhaid gwneud yn well y tro nesaf.

A dyma fi ar yr ail ddiwrnod ac yn crafu fy mhen ond gan fy mod i wedi cyfyngu fy hun i Benrhyn Gŵyr gwaeth i mi heb ddilyn fy nhrwyn yn y gobaith y byddaf yn cael syniadau. Heibio Penmaen mae lle i barcio ond a oes lle i mi? Oedd mi oedd lle i un bach, ond wrth droi i mewn sylweddolais fod cyflwr y wyneb yn ofnadwy, tyllau mawr ym mhob man felly dod allan yn ofalus oedd y peth callaf. Troi i fynd trwy Reynaldston wedyn ac roedd y lle parcio ar y pen yn llawn hefyd felly mynd ymlaen heibio Broad Pool. Ar ddiwrnod sych mae'n bosib parcio ar ochr y ffordd ond roedd gormod o bobl wedi trio yn barod. Ymlaen at Lanrhidian a dilyn y ffordd isel wrth ochr y morfa heli. Gwelais rywle i barcio a dechreuais gerdded ar hyd y trac, fy llygaid yn sganio'r ddwy ochr, digon o bethau lliwgar i'w weld ond nid blodau oedden nhw. Roedd hi'n mynd yn fwy mwdlyd ac yn y pen draw, gan fod dim byd i'w weld es i'n ôl yn ofalus at y car. Y lle nesaf oedd Penclawdd a digon o le i barcio. Mae gwaith wedi cael ei wneud ar y morglawdd yn ddiweddar ac roedd blodau wedi cael eu plannu a dyma flodyn cyntaf y diwrnod - Melyn yr Ŷd. Cerdded wrth ochr y morfa wedyn a gweld tipyn o liw yn y pellter - llygad y dydd.

Ar y trydydd diwrnod y cynllun oedd cerdded o Southgate hyd at y clogwyn uwch ben Bae'r Tri Chlogwyn, parcio'r car ac ar y ffordd i gael tocyn roeddwn i'n sicr mod i wedi clywed teulu yn siarad Cymraeg. Ar y ffordd yn ôl es i'n agosach atyn nhw ac ia, mi oedden nhw'n siarad Cymraeg. Roedd rhaid cael sgwrs, Nain a Thaid yn byw yn Abertawe a'r rhieni a'u plant yn byw yng Nghaerdydd - pob un yn siarad Cymraeg. Hyfryd!

Ac ymlaen at y daith olaf ond roedden ni wedi cael gormod o law yn ddiweddar a'r llwybrau'n fwdlyd dros ben ac i wneud pethau'n waeth roedd wyneb y llwybrau wedi dirywio'n ofnadwy. Dim ond yr eithin oedd i'w weld ond, arhoswch! Dyma ddant y llew dewr iawn yn sefyll yn syth yn erbyn y gwynt oer, roedd o mewn blodau ond yn gyndyn i ddangos ei hun yn ei holl ysblander.

A dyna ni. Mae'n rhaid i mi ddweud nad ydw i'n gweld dim bai ar y planhigion i beidio mentro tu allan a doedd dim pryfed i'w weld yn chwilio am baill. Llond law oedd i'w gweld a gallwch chi ddweud dim ond yr eithin oedd yr un go iawn achos ffliwc oedd y lleill efallai. Dw i'n clywed chi'n gofyn y cwestiwn "A oedd pwynt i hyn i gyd?" Cwestiwn da, a'r ateb yw "Oedd!" 'Dyn ni'n dysgu dim wrth gymryd pethau'n ganiatáol. Mae'n rhaid i ni ofyn cwestiynau ac mae'n rhaid i ni chwilio am atebion, dyna sut 'dyn ni'n dysgu.

A hefyd, ar ôl i ni gael dwy flynedd o gyfyngiadau 'dyn ni gyd wedi dod i arfer â pheidio mynd allan ac mae peryg na fydden ni'n mentro gymaint ar ôl i'r cyfnod ofnadwy yma ddod i ben. Mae'n dda cael rheswm.

A gawn ni obeithio bydd normalrwydd yn dychwelyd yn 2022?

Gobeithio wir!

**Rob Evans**



Mae enillydd pedair Gwobr Llyfrau Plant Tir na n'Og ac awdur cyfredol y mis Llyfrgelloedd Cymru, Manon Steffan Ros, yn adleisio barn Nicola. "Mae llyfrgelloedd yn ganolbwyntiau cymunedol a does dim byd tebyg iddyn nhw i ganoli'r profiad cymdeithasol o fod mewn cymuned, neu i ddemocrateiddio gwybodaeth.

"Ysgrifennais i gryn dipyn o lyfrau yn fy llyfrgell leol a sylweddolais nid yn unig sut roedd llyfrgellwyr yn wych am groesawu pobl ifanc, dod o hyd i lyfrau ac argymell rhai ar eu cyfer, ond hefyd adeiladu cysylltiadau cymdeithasol â phawb oedd yn dod i mewn, a'u cyflwyno i eraill trwy grwpiau a digwyddiadau hefyd.

"Nid yw pobl ifanc wastad yn meddwl am lyfrgell fel eu gofod nhw, ond mae wir yn lle iddyn nhw a bydd yr ymgyrch hon yn dangos popeth y gall llyfrgelloedd ei gynnig iddyn nhw," ychwanega Manon.

"Rydw i wastad yn mynd yn ôl at rai llyfrau sy'n gwneud i mi deimlo'n dda, yn enwedig yn y gaeaf. Gall llyfrau eich cyflwyno i bobl eraill sy'n union fel chi. Mae'n gwneud i chi sylweddoli nad ydych chi ar eich pen eich hun, hyd yn oed os yw'n teimlo felly. Rydw i wir yn edrych ymlaen at weld beth mae plant a phobl ifanc yn ei argymell."

Tybed pa lyfrau fydd ar y rhestr awgrymiadau? Fydd eich hoff lyfr chi yno? Byddai'n ddiddorol clywed pa lyfrau fyddech chi'n eu hawgrymu i eraill os yn chwilio am rhywbeth i godi calon. Anfonwch eich awgrymiadau at yr Eco ac mi wnawn ni eu rhannu!

I gael mwy o wybodaeth am Gaeaf Llawn Lles ewch i www.readingagency.org.uk/GaeafLlawnLles, neu dilynwch @readingagency ar Twitter, Instagram a Facebook i rannu eich syniadau, y llyfrau rydych chi wedi'u darllen a'ch awgrymiadau lles. Defnyddiwch yr hashnod #LlesGanolWythnos #GaeafLlawnLles trwy gydol tymor y gaeaf.




# Datblygiadau newydd yn Y Festri

Mae hi wedi bod yn gyfnod pryderus unwaith eto gyda'r Covid-19 ar ffurf newidolyn gwahanol yn cynyddu'r achosion. Mae'n dda dweud bod yr amrywiolyn a nifer yr achosion newydd i'w gweld yn lleihau erbyn hyn, ond mae pobl yn dal yn ansicr ac yn pryderu am ddod i gyfarfod pobl eraill yn dorfol.

Mae'r Festri wedi buddsoddi mewn 'awyr iach' i leihau Covid-19 yn y gymuned.

Sut maent wedi gwneud hynny? Mae theatr gymunedol a chelfyddydol Y Festri, yn Llanberis, wedi gosod dau hidlwr HEPA a synhwyrydd CO2 yn y Neuadd fel dull i leihau'r risg o heintiadau Covid-19. Ymddengys bod yr hidlwyr HEPA (high efficiency particulate air filters) yma'n hynod effeithiol yn gwaredu deunydd feirol o'r aer. Trwy wneud hyn mae'n lleihau'r risg o ledaenu'r feirws os yw person heintus yn bresennol yn yr adeilad.



Chris Williamson a Mzima Tomkins efo'r hidlydd HEPA newydd




Mae'r synwyryddion CO2 yn helpu'r staff i gynnal cyflenwad cyson o awyr iach o fewn yr ystafell. Wrth i bobl anadlu allan mae lefelau CO2 yn yr ystafell yn codi. Trwy fesur y cynnydd mewn CO2 mae'n bosib amcangyfrif faint o awyru sydd ei angen i leihau'r aer allai fod wedi ei heintio â Covid-19 yn yr ystafell.

Dywed y Cadeirydd, Merlin Tomkins:

"Un peth positif am y mesurau hyn yw ein bod yn gallu bod yn fwy egni effeithiol trwy reoli faint o awyru sydd ei angen i gadw'n dosbarthiadau cymunedol yn ddiogel, wrth sicrhau bod yr ystafell yn ddigon cynnes yn ystod y gaeaf."

Mae'r Festri'n awyddus iawn i helpu unrhyw fusnesau lleol eraill sydd efallai am wella iechyd yr aer yn eu hadeiladau a lleihau risgiau Covid-19. Ychwanega Merlin, "Efallai bod rhai pobl yn ansicr am beth i'w brynu a sut i'w ddefnyddio fo. Os oes unrhyw un am wybodaeth bellach am hyn, mae croeso i chi gysylltu trwy ein gwefan neu ar emailinfo@yfestri.org

Dywed Chris Williamson, cynrychiolydd aelodau'r Festri, "Rydym yn hynod falch bod ganddom y dechnoleg sy'n rhoi hyder i ni i ail-agor mor ddiogel ag y gallwn ni yn ystod y gwanwyn, mewn dull sy'n edrych ar ôl llesiant y pentref. Gall ymwelwyr i'n dosbarthiadau ni deimlo'n dawel eu meddwl bod Y Festri yn lle mwy diogel i fwynhau celfyddydau cymunedol."

# Chwilota

Erthyglau hanes lleol, Bro Eco'r Wyddfa.

**Beicio a Tŷ Walker**

Diolch i Rhiannon Roberts am ymateb i'r hanes am y beic Sunbeam yn rhifyn Tachwedd y llynedd. Daeth galwad ffôn hefyd oddi wrth Eirwyn Williams, Cwm y Glo yn sôn am berthynas iddo oedd yn feiciwr – ac yn cystadlu, sef Tommy Williams, Tan Rhiw, Y Fachwen. Byddai'n arfer reidio'r holl ffordd i Bwllheli i gystadlu mewn rasys beics yno – a reidio'r holl ffordd yn ôl i'r Fachwen wedyn. Dipyn o gamp.

Cyfeiriodd Eirwyn hefyd at Charles Walker, Cae'r meinciau, Llanberis (a enillodd ras feics yn Llanllyfni yn 1898). Dywedodd Eirwyn fod y diweddar Gwilym Roberts, Fron Olau wastad yn galw'r adfail ble roedd bwthyn Cae'r Meinciau, yn 'Tŷ Walker'. Pwy felly oedd Charles Walker oedd yn byw yng Nghae'r Meinciau ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg?

Roedd Robert Walker, ei wraig Mary Jane a'i ddwy ferch, Fanny a Sarah yn byw yn 2 Pant Du, Llanberis erbyn 1871. Roedd y rhieni a Fanny, oedd yn 5 oed ar y pryd, wedi eu geni yn Iwerddon. Mae cyfrifiad diweddarach yn cadarnhau mai yn Gray Abbey, Gogledd Iwerddon y ganed hwy. Mae posibilrwydd iddynt fyw yn Cumberland cyn symud i Lanberis, ond ni allaf gadarnhau hynny ar hyn o bryd. Erbyn 1881, mae'r teulu'n byw yn Tŷ Du. Does dim sôn am Fanny, ond mae tri arall o blant wedi eu geni iddynt, Ellen, Charley a Jane Lawton. Felly, cafodd Charles/Charley y rasiwr beics, ei eni yn Llanberis.

Yn 1891 y daw'r cyfeiriad cyntaf at y teulu'n byw yn Cae'r Meinciau. Dim sôn am Fanny, Sarah nac Ellen, a dim ond Charles a Jane Lawton sydd gartref. (Bu Fanny farw yn Lerpwl yn Ionawr 1892 a chladdwyd hi ym mynwent Llanbeblig.) Gwyddom, yn ôl yr adroddiad papur newydd am y ras beics yn Llanllyfni, mai yng Nghae'r Meinciau roedd Charles yn byw yn 1898. Ond erbyn cyfrifiad 1901 roedd wedi gadael cartref. Yn wir, ar ddiwedd 1898 priododd gyda Mary Ellen Davies yng Nghaernarfon a dod i fyw i Lwyndyrys, Llanberis. Erbyn 1901, roedd ganddynt fab bach 3 mis oed o'r enw Joseph Charles. Yn 1901 hefyd, mae Ellen (Nell) wedi dychwelyd at ei rhieni i Gae'r Meinciau. Yno hefyd mae plentyn o'r enw Carrol, sy'n chwech oed.

Yn anffodus, chafodd Charles Walker ddim byw i weld ei fachgen bach yn cyrraedd ei flwydd oed. Bu farw ym mis Rhagfyr 1901. Yn ôl adroddiad byr yn y wasg leol, nodir fod *"afiechyd wedi profi yn angeuol i lu o bobl"*. Yn eu plith roedd Charles. Gadawyd Mary Ellen yn weddw ifanc iawn gyda bachgen llai na blwydd oed. Tybed beth oedd yr afiechyd a fu'n gyfrifol am farwolaethau yn yr ardal bryd hynny?

Roedd dau o blant Robert a Mary Walker wedi marw'n ifanc – Fanny yn 26 oed a Charles yn 28 oed. Â Robert bellach dros 60 oed, roedd wedi bod yn labrwr yn un o'r chwareli lleol am tua 35 mlynedd. John Menzies o Gaernarfon oedd perchennog un o'r mân chwareli hyn, ac ar ddiwedd haf 1902 bu'n ddigon caredig i dalu i'w weithiwr ffyddlon gael gwyliau yn ei hen gartref yng Ngogledd Iwerddon. Does wybod a ddychwelodd Robert Walker o'i wyliau haeddiannol i barhau gyda'i waith yn y chwarel, oherwydd bu farw o fewn pum mlynedd.

Beth tybed ddigwyddodd i weddill y plant? Erbyn 1891, roedd Sarah yn forwyn yn Ficerdy Llandinorwig, a phedair blynedd yn ddiweddarach priododd gyda Robert Parry o Gaernarfon. Rhyw flwyddyn wedi i Sarah briodi, roedd Jane Lawton hefyd yn briod – gyda David William Skillen, genedigol o Cumbria. Erbyn dechrau'r ganrif roeddent wedi symud i dde Cymru, gyda phlentyn 4 oed. Roeddent yn byw yn Gelli Road, Ystradyfodwg, Morgannwg, ac yn rhannu tŷ gyda dau o deuluoedd eraill. (Un o'r teuluoedd rheini oedd David W. Jones o Landdeiniolen, ei wraig Dorothy o Lanberis, a dau o blant.) Byr fu eu harhosiad yno: erbyn 1911, roeddent yn ôl yn y Gogledd, y tro hwn ym Mhenbedw, gyda David Skillen yn gweithio i'r CPRS Shipping Company. Roedd y mab, David, bellach yn 14 oed, ond roedd 'mab' arall hefyd, sef Carrol – y bachgen bach oedd yn byw gyda'i nain a'i daid yng Nghae'r Meinciau ddeng mlynedd ynghynt.

Mae'n ymddangos felly fod holl aelodau teulu Walker un ai wedi marw neu wedi symud o'r ardal erbyn diwedd degawd cyntaf y ganrif ddiwethaf. Methais â chael cofnod o Gae'r Meinciau yng nghyfrifiad 1911 am Lanberis. Tybed felly mai teulu'r Walker oedd y rhai olaf i fyw yn y bwthyn, ac mai dyna pam y cai ei adnabod fel Tŷ Walker?

Ond mae un tro bach anesboniadwy yn hanes Cae'r Meinciau. Flynyddoedd yn ôl, mewn sgwrs gyda'r diweddar Gwilym Roberts, Fron Olau, adroddodd fel yr oedd ci defaid ganddo yn gwrthod mynd yn agos at adfeilion Cae'r Meinciau, waeth o ba gyfeiriad y deuai at y tŷ. A dyna'r union stori a adroddwyd i mi gan Eirwyn Williams tra ar y ffôn ddiwedd y llynedd.

**Bardd o Benisarwaun**

Chlywais i erioed am Ioan Eryri tan yn ddiweddar, a hynny oherwydd ail-osod ei garreg fedd ym mynwent Poultney, Rutland County, Vermont. Mae'n ymddangos mai un o Fryntirion, Penisarwaun oedd yn wreiddiol, wedi ei eni tua 1856. Roedd yn cystadlu – ac yn ennill – yng Nghylchwyl Lenyddol Penisarwaun yn 1881, ble daeth yn ail am draethawd, cyntaf ar englynion a chyntaf ar benillion i Ffynnon Cegin Arthur. Ni roddir teitl i'r traethawd na'r englynion.

O fewn y degawd nesaf mae'n amlwg iddo ymfudo i'r America, ac erbyn 1895 roedd yn Ysgrifennydd Eisteddfod Cymreigyddion Vermont. Yn 1895, roedd yn ysgrifennu adroddiad llawn am Eisteddfod Iforaidd Poultney.

Prin yw'r cyfeiriadau ato. Bu ei wraig, Jane, farw ym mis Chwefror 1904 yn dilyn llawdriniaeth yn yr Albany City Hospital. Dywedir yn yr adroddiad am ei marwolaeth ei bod yn chwaer i'r gŵr oedd yn cadw Gwesty Pen y Pass.

Bu Ioan Eryri farw yn 1931.

Dyna'r esgyrn sychion, ond byddai'n ddiddorol cael gwybod mwy am y bardd Ioan Eryri.

Os oes unrhyw un â gwybodaeth am Cae'r Meinciau, teulu Walker neu Ioan Eryri, yna cysylltwch. Yn yr un modd, mae croeso i chwi anfon unrhyw ymholiad am hanes lleol bro'r Eco i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon LL55 4BA.
Ffon: 01286 673515 neu e-bost: dafydd.wthomas@btinternet.com



FFRAMIA
Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922
Gwasanaeth
FFRAMIO LLUNIAU
Dewis eang o luniau yn yr oriel ac ar y wefan
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy
www.fframia.com

GERAINT OWEN
CARPEDI

Cil y Mynydd
Waunfawr
Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfai Mill, Bontnewydd
(01286)650552 Symudol - 07712779475

CARPEDI
TEILS
VINYLS
DEWIS MAWR
O BATRYMAU

SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru
Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando
Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos
0808 164 0123
Gwefan: www.samariaidbangor.cymru

# Cyngor Cymuned Llanrug

## 16eg Tachwedd, 2021

Derbyniwyd cyflwyniad gan Lowri Vaughan, Hwylusydd Cymunedol GwyrddNi, dros Ddyffryn Peris.

**Problemau traffig ar Ffordd yr Orsaf, Llanrug a lleoliadau eraill.**
Adroddwyd fod problemau trafnidiaeth ar Ffordd yr Orsaf yn parhau i achosi trafferthion i'r preswylwyr. Nodwyd fod car wedi'i barcio o flaen giât un eiddo fel nad oedd yn bosib cerdded allan drwy'r giât. Nodwyd fod y cyngor cymuned wedi cynnal cyfarfod cyhoeddus ar 3ydd o Chwefror 2020 i drafod y problemau ble roedd swyddog o Gyngor Gwynedd, yr Heddlu a chynrychiolwyr o'r cwmnïau bysiau yn bresennol. Mynegodd llawer iawn o drigolion enghreifftiau o dagfeydd, ceir yn trafaelio yn rhy gyflym, a bysiau'n methu mynd drwyddo.

Fel aelod dros Lanrug ar Gyngor Gwynedd, adroddodd y Cynghorydd Beca Brown ei bod wedi bod mewn cyswllt â swyddogion Cyngor Gwynedd ar fwy nac un achlysur a'i bod ar hyn o bryd yn disgwyl dyddiad i gyfarfod safle gyda'r swyddogion perthnasol.

Nodwyd mai cyfrifoldeb Cyngor Gwynedd ydi materion yn ymwneud â materion priffyrdd nid y cyngor cymuned. Mewnbwn y cyngor cymuned, ydi ei fod yn lleisio llais y bobl leol ac yn ymddwyn fel hwylusydd ar gyfer cyfarfodydd ayyb.

**Adroddiad gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones aelod dros Gwm-y-Glo ar Gyngor Gwynedd**

**Biniau Halen**
Mae'r cyngor yn treialu ffordd newydd o weithredu drwy ariannu llenwi'r biniau halen ar gost eu hunain. E-bost i ddod i'r Clerc yn esbonio'r sustem newydd.

**Parcio *Campervans***
Cynllun peilot yn oddeutu 6 o feysydd parcio'r cyngor i droi rhannau ohonynt yn le aros dros nos i *gampervans* yn debyg i'r rhai sydd i'w weld ar y cyfandir. Am redeg y peilot am dair blynedd ac adrodd yn ôl. Hefyd dod a mesuriadau gorfodaeth i mewn i rwystro'r *campervans* aros dros nos mewn *lay-bys* ac yn y blaen.

**Cynllun Gweithredu Hawliau Tramwy**
Bydd y cynllun yn mynd i ymgynghoriad cyhoeddus, pryd bydd cyfle i'r Cynghorau Cymuned a'r cyhoedd roi sylwadau.

**Fframwaith Pwyllgorau**
Mae'r Adran Democratiaeth yn edrych ar sut fydd pwyllgorau'r Cyngor yn cael eu cynnal yn y dyfodol. Mae'n debyg y bydd rhai yn yr ystafell bwyllgor ac eraill yn ymuno yn rhithiol neu rhai rhithiol yn unig. Y rhai tebyg o fod yn hybrid yw'r Cyngor Llawn, y Cabinet, Pwyllgor Cynllunio a'r Pwyllgorau Craffu. Byddai'r gweddill yn rhithiol heblaw am rhai eithriadau.

**Strategaeth ddigidol Addysg**
Mae'r Cyngor wedi prynu digon o *Laptops/ Chrome books* i bob disgybl ac athro yn y sir fel bod pawb gyda'r un adnodd. Mi fydd angen eu huwchraddio pob rhyw 5 mlynedd ac mae'r cyngor wedi cytuno i gyd ariannu hyn gyda'r ysgolion. Bydd swyddogion ychwanegol TG yn cael eu cyflogi i roi cefnogaeth dechnegol i'r ysgolion. Gobeithir y bydd hyn yn ei le erbyn Ebrill 2022.

**Yn Lleol**
Disgwylir ymatebion gan y Cyngor Sir ynglŷn â nifer o ymholiadau a wnaed gan gynnwys lleoliad yr arwydd 40mya ar y ffordd i Gwm y Glo o gyfeiriad Llanberis, gor-gyflymder Ffordd Ceunant/Tanycoed ac amserlen trosglwyddo Ysgol Cwm-y-Glo i Fenter Fachwen.

**Cais am finiau ychwanegol ar gyfer Llanrug a Chwm-y-Glo**
Nodwyd fod cais am finiau ychwanegol yn Llanrug a Chwm-y-Glo wedi'i wneud ers misoedd gyda rhestr wedi'i anfon at Gyngor Gwynedd gyda lleoliadau yn dilyn ymgynghoriad gyda'r cyhoedd. Roeddem wedi cael addewid byddai swyddog yn ymweld â'r safleoedd ond hyd yma does dim wedi digwydd.

Penderfynwyd cyfeirio'r mater at uwch swyddog a'r adran, ac os bydd angen, gwneud defnydd o drefn gŵyn ffurfiol Cyngor Gwynedd.

**Adroddiad gan y Pwyllgor Cyllid**
Adroddwyd fod y pwyllgor wedi cyfarfod ar 9fed o Dachwedd i drafod ffyrdd i ariannu atgyweirio'r cofebion yn y fynwent. Nodwyd fod Llywodraeth Cymru wedi datgan na fyddai'n bosib benthyg arian i dalu am y gwaith gan nad y cyngor oedd berchen y cofebion.

**Adroddiad gan Bwyllgor y Fynwent**
Adroddwyd fod y pwyllgor wedi cyfarfod ar 10fed o Dachwedd. Nodwyd fod arwyddion wedi bod fyny ar y cofebion ers peth amser bellach a bod angen symud ymlaen i'r cam nesaf sef i roi nodyn ar bob stêc yn gofyn i'r perchnogion gysylltu â'r Clerc. Gobeithir bydd y cyngor mewn sefyllfa i adnabod faint o waith y bydd angen ei wneud erbyn Ionawr 2022.

Adroddwyd fod rhai wedi gwneud gwaith ar y cofebion a bod eraill wedi bod mewn cysylltiad ac yn disgwyl i'r seiri wneud y gwaith.

Nodwyd fod y system ddigidol yn gweithio yn dda ar gyfer archwilio'r fynwent ond gan ein bod yn dal i ddisgwyl cael gosod y placiau yn nodi'r ardaloedd, penderfynwyd gohirio ei wneud yn gyhoeddus.

**Adroddiad gan y Pwyllgor Bwyd**
Adroddwyd fod y cynllun cyfredol yn dod i ben ar 30ain Tachwedd ond ein bod yn chwilio am ffynonellau eraill o grantiau i ariannu'r cynllun.

**Ceisiadau Cynllunio**
Penderfynwyd cefnogi'r cais i adeiladu modurdy dwbl yn Afonwy Cottage, Pontrug ond gwrthwynebwyd y cais am ailfodelu ac ymestyn y gwesty a'r sba presennol ynghyd â lleoli 39 o gabanau gwyliau, ffurfio cyrtiau tenis, canolfan weithgareddau, derbynfa, bloc llety staff ac ystafell blanhigion biomas, gyda ffyrdd mynediad cysylltiedig, llwybrau, parcio a thirlunio yn *Seiont Manor Hotel*, Llanrug.

Gwasanaeth Gwres a Plymio
Gas safe register
Ar gyfer eich holl anghenion gwres a plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser
Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig Bethel LL55 1UW
Ffôn (01248) 674927 Symudol - 07798 74618

www.ecorwyddfa.co.uk
ECO'r Wyddfa

SPAR
Y Storfa, Spar, Llanrug
Sgwâr Llanrug
01286 673108


Bwydydd, Diodydd, Papurau Newydd, Cardiau Cyfarch, **Swyddfa Bost**
a chroeso cynnes
Llun - Sadwrn 6:30am - 9pm, Sul 8am - 9am

# Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

## Crynodeb o gofnodion cyfarfod 2il Tachwedd 2021

**Cofnodion 5ed Hydref 2021**
Cafwyd y Cofnodion yn gywir

**Materion o’r Cofnodion**
**Llythyrau Diolch**: Derbyniwyd llythyrau diolch am roddion ariannol i fudiadau oddi wrth Llais Ogwan, Clwb Bowlio Bethel, Eisteddfod Bethel, Clwb Pêl Droed Bethel, Clwb Snwcer Deiniolen, Seindorf Arian Deiniolen, Cynllun Efe, Neuadd Bentref Rhiwlas, Pwyllgor Neuadd Penisa’r-waun, Ysgol Gwaun Gynfi ac Ysgol Bethel.
**Llwybrau**: Rydym dal i ddisgwyl am ymateb gan yr Adran Llwybrau ar amcan bris i wella ychydig o lwybrau’r ardal.

**Gohebiaeth a Materion Eraill**
**Neuadd Bentref Rhiwlas**: Derbyniwyd llythyr oddi wrth Cynrig Hughes ar ran Pwyllgor Neuadd Rhiwlas, yn dilyn ymchwil ganddynt i gofrestru’r Tir er mwyn hwyluso gwaith ceisiadau am gymorth ariannol. Yn dilyn hyn, darganfuwyd fod perthynas rhwng y Neuadd a Chyngor Cymuned Llanddeiniolen. Yn dilyn hyn, llwyddodd Cynrig I fynd i’r archifdy yng Nghaernarfon gyda’r gobaith o ddatgelu rhywbeth yng nghofnodion y Cyngor yn niwedd y 70au. Yn dilyn hyn yn wir, cafwyd cadarnhad mewn cofnodion o 1979 mai Cyngor Cymuned Llanddeiniolen yn wir yw Ymddiriedolwyr yr elusen, ac mai’r Cyngor Cymuned yw perchennog cyfreithiol Y Neuadd, er nad yw’r tir wedi ei gofrestru.


Yn dilyn trafodaeth, lle nodwyd bod hyn yn dangos pa mor bwysig ydyw bod cofnodion trylwyr yn cael eu cadw ym mhob cyfarfod, penderfynwyd yn unfrydol mai penderfyniad doeth fyddai cadw’r sefyllfa sydd wedi ei oleuo yma run fath, sef perchnogaeth y Neuadd yn nwylo’r Cyngor Cymuned. Bydd hyn yn sicrhau dyfodol i’r Neuadd a sicrwydd i’r amser a ddêl. Penderfynwyd hefyd y byddai’r Cyngor Cymuned yn cofrestru’r Tir yn enw’r Cyngor Cymuned.

Yn dilyn hyn, efallai fod gwerth i’r Cyngor edrych i mewn i weld a oes rhywbeth arall, yn anymwybodol i ni, sydd yn ein gofal ym mhob pentref, ac os oes, efallai cysylltu gyda Unllais Cymru am drafodaeth bellach.

**Cynllunio**
Derbyniwyd y ceisiadau canlynol:
**C21/0882/18/AC - Plot 2,3,4 a 5 Maes Y Ffynnon, Bethel.**
Diwygio amod rhif 1 o ganiatâd cynllunio C18/0545/18/LL er mwyn newid dyluniad cynllun llawr ac edrychiad allanol y 4 Tŷ.
**C21/0969/18/LL, Carreg Y Garth Isaf Allt Rhiwlas,**
Cadw Carafán at ddibenion storio.
**C21/1028/18/LL Cartref Nyrsio, Penisa’r-waun**. Newid defnydd cartref gofal i hostel gyda 30 ystafell wely ynghyd â llety byw warden cysylltiedig.

**Lloches Bws Brynrefail**
Derbyniwyd cŵyn fod y gysgodfan bws ger y bont yn flêr, ac angen paneli newydd yn hytrach na’r paneli oedd arni ar hyn o bryd, lle does dim posib gweld allan o’r gysgodfan.

Esboniwyd mai’r rheswm y rhoddwyd y paneli yma oedd am bod y gysgodfan yn cael ei fandaleiddio cyn gynted â bod paneli newydd yn cael ei rhoi yno. Bu hyn yn mynd ymlaen am flynyddoedd. Wedi gosod y paneli yma, cafodd graffiti anweddus ei ddarlunio yno, a bu i ni fethu â’i llnau a gorfod ei beintio. Penderfynwyd gyrru am amcan bris, gan obeithio fod y gysgodfan bws am gael llonydd rhag ei ddifrodi.

HYWEL WILLIAMS
AELOD SENEDDOL ARFON

01286 672076
8 Stryd y Castell Caernarfon
hywel.williams.mp@parliament.uk
Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Senedd San Steffan, o gronfeydd cyhoeddus

ECO’r Wyddfa
Hoffech chi hysbysebu eich busnes yma?
Cysylltwch â'n Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu
Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug
01286 673838
hefsj@aol.com


# Cyngor Cymuned Llanberis

## Cofnodion Cyfarfod Mis Tachwedd 2021:

Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn Y Ganolfan, Llanberis nos Fercher y 10fed o Dachwedd, am 7 y.h.
**CADARNHAU COFNODION**
Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Fercher, y 13eg o Hydref, 2021, fel rhai cywir.

**MATERION YN CODI O’R COFNODION**
***1. Cofeb y Chwarelwyr***:
Atgoffwyd yr aelodau y bydd y Cyfarfod Cyhoeddus ymhen yr wythnos i drafod y Gofeb / Cerflun.
***2. Mynydd Gwefru:***:
Dywedodd y Clerc iddo fethu gweld dogfennau yn olrhain perchnogaeth yr adeilad oddi ar y Gofrestr Tir am nad oedd modd talu ar eu Gwefan.
***3. Cyflwr fflat yn Maes Padarn a Parcio ymwelwyr dros nos yn Maes Padarn***:
**a)** Cafwyd ateb o’r diwedd gan gwmni Adra i’r cwynion am safon un o’r fflatiau gyda addewid y bydd ymchwiliad cyn diwedd y mis. Awgrymwyd bod angen ail gysylltu er mwyn cael archwiliad cynharach. Addawodd HS a KJ gysylltu a’r teulu a’r cwmni.
**b)** Mewn perthynas a’r parcio gan ymwelwyr dywedodd Adra mai mater i Cyngor Gwynedd oedd hynny fel awdurdod priffyrdd a thrafnidaeth. Gofynnwyd i’r Clerc gysylltu eto â CG.
**[DATGAN DIDDORDEB**: Gan fod KJ yn gyflogedig gan Adra, wnaeth hi ddim cymeryd rhan yn y drafodaeth]
***4. Gyrru ar yr A4086, Nantperis – Arwyddion Angladd***:
Adroddwyd fod yr arwyddion ffyrdd ar gyfer Angladdau wedi eu harchebu a’u bod yn cyrraedd dydd Gwener. Rhoddwyd awdurdod i’r Clerc dalu amdanynt. Y gost yn £132 yn cynnwys TAW.
***5.CG - Llifogydd A4086***:
Wedi misoedd o oedi cafwyd ymateb i nifer o ymholiadau a chwynion ynglyn a llifogydd a chreigiau.

Yn ôl y peirianydd roedd y graig ger Glandŵr lle disgynodd creigiau yn gynharach yn y flwyddyn wedi ei harchwilio ac roedd yn ddiogel.

Ystyriwyd nad oedd angen gwneud gwaith pellach ger Gardda Bach. Yn ôl yr adroddiad mae’n ymddangos fod y glanhau dwy i gwter o dan y ffordd wedi gweithio. Bydd y glanhau mawr nesaf yn haf 2022. Adroddwyd fod rhai o’r aelodau yn dal yn amheus a fyddai’n gwaith yn ddigon i sicrhau na fydd yma lifogydd eto.

Yn achos llifogydd ar y ffordd rhwng y ddau Gwmaelir mae Cyngor Gwynedd (CG) yn cydnabod bod yma broblem ac yn ystyried sut i’w datrys. Er na wrthodwyd awgrym y Cyngor hwn i osod pibellau yn y wal i liniaru’r broblem roedd ystyriaethau eraill i’w trafod hefyd yn ôl y swyddog.

Nodwyd bod llifogydd wedi bod yn y fan yma'n ddiweddar, ac o flaen Terfyn a Talgae ochr uchaf i Nantperis a bod angen i CG ddatrys hyn yn fuan.

***6. Sul y Cofio***:
Dywedwyd fod y trefniadau yn eu lle ar gyfer gwasanaeth byr wrth y Gofeb ar fore Sul y 14eg o Dachwedd.

***7. Goleuadau Nadolig***:
Gan fod DO y trydanwr yn brysur penderfynwyd gadael goleuadau'r polion am eleni ond addawodd y byddai'n profi goleuadau'r coed ar gyfer Nant a Llanberis ac archebu rhai ychwanegol yn ôl y galw. Cytunwyd fod angen ychwanegu at oleuadau y ddwy goeden.Awgrymwyd hefyd cael 'casglwr ceirios'i osod y goleuadau yn Llanberis.

Bydd y coed yn cyrraedd ar y 26 Tachwedd a gobeithir eu codi a'u goleuo y diwrnod canlynol, dydd Sadwrn y 27ain.

***8. Ymgynghoriad: Trethi Lleol ar gyfer Ail-gartrefi a Llety hunan-ddarpar***:
Diolchwyd i'r Cadeirydd RhaG am baratoi ymateb i'r ymgyghoriad hwn ar ran y Cyngor a dwyn i sylw pa mor ddifrifol y sefyllfa o ran cael cartrefi fforddiadwy yn y gymuned hon i bobl ifanc ac eraill.

**MATERION ERAILL**

***1. Cae Pel-droed UEFA***:
Adroddwyd fod cwmni Replay Maintenance Ltd wedi cynnal arolwg o'r cae ac wedi anfon nifer o brisiau am ei ail wynebu. Roedd tri dewis yn amrywio yn fras o £21 - 24 mil gyda TAW ar ben hynny. Pe bai angen rhoi (nid bod arwydd o hynny) sylfaen newydd byddai hynny yn ychwanegu dros £13mil + TAW at y pris. Gan nad oes digon o arian yn y Gyllideb i wneud y gwaith gobeithir cael cymorth o un neu ddwy ffynhonell.

Dywedodd y Clerc ei fod wedi gwneud cais yn barod i dair elusen: elusen cwmni Engie, Cist Gwynedd (Arian newydd gan Lywodraeth Cymru) ac Elusen Dyffryn Peris. Cytunwyd y byddai'n ddymunol gwneud y gwaith o fewn y flwyddyn ariannol bresennol cyn diwedd Mawrth; pe bai arian yn dod o Gist Gwynedd byddai hynny yn amodol. Felly bydd angen ystyried sut i gyraedd y nod. Awgrymwyd y dylid ystyried holi cwmniau eraill i weld a oes yna gronfeydd eraill a allai gynorthwyo. Erbyn cyfarfod mis Rhagfyr bydd y Clerc wedi amcangyfrif yn fanwl faint o arian fydd yn debyg o fod yn weddill yn y cyfrifon Banc erbyn diwedd Mawrth.

***2. Maes Parcio Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri***:
Cafwyd cwynion fod ffos wedi cau a bod y maes parcio rhannau o'r maes parcio o dan ddŵr, mae ange glanhau ffos a cwlfert o dan y ffordd. Mae'r toiledau ar gau yn ystod y dydd, a fu newid polisi. Nodwyd fod biniau coch wedi eu cloi yn dennu ymwelwyr ac eraill i adael sbwriel gyn eu hymyl. Holwyd onid oedd gwell lle ar eu cyfer? Nodwyd hefyd nad oedd modd derbyn cerdyn i dalu am barcio, ac fod diffygion ers tro ar y peiriant casglu arian. Addawodd y Clerc anfon gair at yr Awdurdod.

**GOHEBIAETH**

***1. CG - Llinellau Melyn - Trem y Chwarel:***
Ymgynghoriad ynglyn â'r bwriad i osod llinellau Melyn Dwbl yn Nhrem y Chwarel. Gan mai ffordd bengaead ydi hon, penderfynwyd mai mater i'r trigolion yw hwn.

***2. CG - Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Môn***:
Cylchlythyr yn nodi fod y Gwasanaeth yn paratoi Adroddiad Adolygu Drafft - Cynllun Datblygu Lleol. Gan fod y Cynllun wedi ei fabwysiadu ers canol 2017 mae hi bellach yn amser dechrau ei adolygu. Mae'r Adroddiad Adolygu yn edrych ar yr adroddiad ac yn ystyried tystiolaeth newydd cyn mynd ati i ystyried y math o adolygiad sydd ei angen. Mae'r Adroddiad Adolygu Drafft ar gael yn fan hyn: www.gwynedd.llyw.cymru/cdlldiwygiedig neu o Siop Gwynedd, Caernarfon. [Addawodd y Clerc gylchlythyru y manylion i'r aelodau ar ebost]

***3. Comisiwn Ffiniau i Gymru***:
Bydd y Comisiwn yn cynnal Gwrandawiadau Cyhoeddus yn ystod Cyfnod Ymgynghori Eilaidd. Mae hyn yn dilyn newidiadau a wnaed ar ôl yr Ymgynghoriad Cychwynnol. Mae'r cyfarfod agosaf i Lanberis ar y 19 Ionawr 2022 yn Y Ganolfan Rheoli, Bangor. Gellir sicrhau hawl i siarad trwy gysylltu a cffg@ffiniau.cymru

***4. Senedd Cymru – Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai***:
Mae'r Pwyllgor yn bwriadu gwneud ymchwiliad cenedlaethol i ail gartrefi. Penderfynwyd mai da o beth fyddai cynnal arolwg o sefyllfa ail gartrefi yn y Plwyf a phenderfynwyd rhannu'r ardaloedd gyda pob cynghorydd yn gyfrifol am ardal leol cyn belled ag y mae hynny'n bosib. Dyddiad cau'r ymgynghoriad ydi 14 Ionawr 2022.

***5. Un Llais Cymru***:
Derbyniwyd golygiad newydd o'r ddogfen Model Brotocol Datrysiadau Lleol ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned oddi wrth Un Llais Cymru. Dogfen yw hon i gynorthwyo Cynghorau i ddatrys problemau a allai ddeillio o gwynion gan aelodau yn erbyn aelodau neu gan Swyddog yn erbyn aelodau neu gan y Cyhoedd yn erbyn y Cyngor neu ei aelodau neu lle mae'r Cod Ymddygiad wedi ei hanwybyddu ag ati.

Unwaith y bydd y Clerc wedi llwyddo i lawrlwytho'r un Gymraeg bydd yn ei rhannu er mwyn ei thrafod (ac o bosib ei mabwysiadu) yn y cyfarfod nesaf.

***6. Llywodraeth Cymru (LlC) - Etholiadau***:
Cylchlythyr yn nodi fod cymorth ariannol ar gael i'r 3ydd Sector i gael mwy o bobl i gofrestru ar gyfer etholiadau.

***7. Cyngor Cymuned Llandygai***:
Yn dilyn holiadur gan y Cyngor uchod am effeithiolrwydd CG yn ei ymateb i ymholiadau Cynghorau Cymuned pendefynodd y byddai yn galw am gyfarfod buan gyda Prif Weithredwr newydd CG i drafod y mater.

***8. LlC - Diffibrilwyr***:
Llythyr yn nodi fod £500K o arian wedi ei neilltuo gan LlC tuag at sicrhau fod mwy o bobl o fewn cyrraedd hwylus i ddifibrilwyr, ac i wneud yn siwr fod y rhai sy'n bodoli yn dderbyniol, mewn cyflwr da ac ar gael bob awr o'r dydd a'r nos. Awgrymwyd y dylid rhestru beth sydd ar gael o fewn y plwyf a sicrhau eu bod wedi eu cofrestru ac yn gweithio gan nodi pwy sy'n gyfrifol amdanynt. Gellid rhestru'r lleoliadau ar Wefan y Cyngor.

***9. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE): Coed Victoria***:
Daeth cadarnhad fod APCE wedi rhoi Gorchymyn Gwarchod Coed (Rhif78 2021 ar Goed Victoria. Daeth i rym ar 5ed o Dachwedd eleni, ac mewn grym yn barhaol.

**CYNLLUNIO**

**APCE:**

• NP3/15/LB80 Glandŵr, Llanberis – *Codi estyniad unllawr ar yr ochr a gosod ffenestri to ar y drychiad cefn / Caniatâd Adeilad Rhestredig am newidiadau mewnol, estyniad unllawr ar yr ochr a gosod ffenestri to ar y drychiad cefn.*

**Ymateb** – O ystyried fod hwn yn Adeilad Rhestredig mae'n ymddangos nad yw'r estyniad yn cydweddu a'r hyn sydd yma'n barod. Wedi dweud hynny mae'n anodd cadw at y cymeriad gwreiddiol ac efallai mai'r ffordd i gadw cymeriad y ty yw trwy ychwanegu estyniad sy'n wahanol fel bod yr adeilad gwreiddiol yn cadw ei gymeriad.

Rhaid cydnabod na fydd yr estyniad yn weladwy iawn ac efallai y gallai fod yn ychwanegiad modern diddorol at hen dy.

Mewn gair felly mae'r Cyngor hwn yn codi cwestiwn ond nid yn gwrthwynebu.

**Cyngor Gwynedd**:

- C21/0934/15/AC – Glyn Rhonwy Pumped Storage, Glyn Rhonwy, Llanberis – *Cais ar gyfer diwygio Amod 1 o ganiatâd cynllunio cyfeirnod C16/0886/15/LL ar gyfer gosod llinell cyswllt grid 132KV tanddaearol rhwng y safle uchod ac is-orsaf Pentir er mwyn ymestyn cyfnod dechreuad y datblygiad o 2 flynedd ychwanegol* – **Dim gwrthwynebiad**
- C21/1054/15/DA – 8 Rallt Goch Ceunant, Llanberis – *Cais ar gyfer gwneud diwygiad ansylweddol* – **Dim gwrthwynebiad**
- C21/1058/15/RA – Ty Newydd Clegir, Llanberis - *Cais ar gyfer gwneud diwygiad ansylweddol* – **Dim gwrthwynebiad**

# Cyngor Cymuned Llanberis

## Cofnodion Cyfarfod Mis Rhagfyr 2021:

**Cofnodion cyfarfod y Cygnor a gynhaliwyd yn Y Ganolfan, Llanberis nos Fercher yr 8fed o Ragfyr, 2021 am 7 y.h.**

**1. Presennol ac Ymddiheuriadau**:
***Ward Padarn:*** Rhys ap Gwilym (Cadeirydd), Olwen Gwilym, Iwan Harding, Bethan Holding, Heather L Jones, Cyng. Kevin Morris Jones, Claudia O'Donnell, Helen Sharp, Trystan Thomas.
***Ward Peris:*** Iola Owen,
***Ymddiheuriadau:*** Gwilym Evans, Kim Jones, Llinos Haf Pritchard.
Hefyd yn bresennol: Dei Tomos (Clerc).

**2. Datgan buddiant**
Cofnodir, os yn berthnasol, o dan y gwahanol benawdau.

**3. Cadarnhau Cofnodion**
Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Fercher, y 10fed o Dachwedd, 2021, fel rhai cywir.

**4. Materion yn codi o'r Cofnodion**
***1. Cofeb y Chwarelwyr***
Adroddwyd mai siomedig oedd y nifer a ddaeth i'r Cyfarfod Cyhoeddus. Penodwyd pwyllgor i symud pethau ymlaen gyda Kim Jones yn Ysgrifennydd a Dei Tomos yn Gadeirydd.

***2. Cyflwr fflat ym Maes Padarn***
Adroddwyd fod archwiliad manwl wedi ei wneud o'r fflat dan sylw gan swyddogion Adre, a bod cynllun gwaith yn ei le i gywiro'r diffygfion. Diolchwyd i'r cynghorwyr a fu ynglŷn â hynny, ac roedd y teulu wedi mynegi eu diolch i'r Cyngor hwn am ei gymorth. [**Datgan diddordeb:** Gan fod KJ yn gyflogedig gan Adra, wnaeth hi ddim cymryd rhan yn y drafodaeth.]

***3. CG – Llifogydd A4086***
Dywedodd y Clerc iddo ail gysylltu â Chyngor Gwynedd (CG) ynglŷn â'r mannau a nodwyd o'r blaen lle bu llifogydd, ac iddo ef a'r Cyngh. KMJ gysylltu ynglŷn â'r pwll cyson o ddŵr sy'n ymddangos ar y ffordd fawr ger mynedfa Y Glyn ac Ynys Wen. Hyd yma, chafwyd dim ateb i'r naill llythyr na'r llall.

***4. Goleuadau Nadolig***
Adroddwyd i'r coed gael eu codi i'w lle, ond bu raid oedi am ddeuddydd cyn goleuo coeden Llanberis oherwydd y tywydd mawr. Gwerthfawrogwyd cymorth perchennog y 'casglwr ceirios' i wneud y gwaith, a diolchwyd iddo.

***5. Cae Pêl-droed UEFA***
O'r tair elusen y cysylltwyd â nhw, roedd dwy wedi ymateb yn ffafriol. Cafwyd £2,500 gan gwmni Engie (First Hydro) a £15,000 o Gist Gwynedd (CG) sef rhan o gymorth Llywodraeth Cymru tuag at chwaraeon. Bydd pwyllgor Elusen Dyffryn Peris yn ystyried ein cais yr wythnos nesaf. Ar sail y cymorth a addawyd yn barod penderfynwyd bwrw 'mlaen i archebu'r wyneb newydd i'r cae gan dderbyn cyngor y Cwmni mai'r un a fyddai'n derbyn traul orau gydag amrywiaeth o esgidiau fyddai'r un i'w archebu. Byddai rhaid cwblhau'r gwaith cyn diwedd Mawrth 2022.

**6. Materion eraill**
***1. Cysgodfan Bws***
Adroddwyd fod lori wedi chwalu'n rhacs y gysgodfan ger Siop 'One Stop' ar y Stryd Fawr. Digwyddodd y difrod yn gynnar ar fore'r 2ail o Ragfyr. Cysylltodd y gyrrwr â Pheiriannydd CG a threfnwyd i ddau o ddynion CG i glirio'r llanast a thrwsio'r palmant. Dywedodd y Clerc y byddai CG yn hawlio arian am y gwaith clirio oddi wrth gwmni yswiriant y lori. Bydd y Cyngor yn gwneud cais am gysgodfan newydd trwy ein hyswirwyr. Rhoddwyd caniatad i'r Clerc fwrw 'mlaen i archebu un newydd ar yr un patrwm a'r un a ddifrodwyd. Cynnig ac eilio: KMJ / OG.

***2. Protocol Datrysiadau Lleol – Un Llais Cymru***
Penderfynwyd derbyn y model o *Brotocol Datrysiadau Lleol ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned* a baratowyd gan Un Llais Cymru ac a ddosbarthwyd i'r aelodau. Mae'n ddogfen ar gyfer cynorthwyo Cynghorau i ddatrys problemau a allai ddeillio o gwynion gan aelodau yn erbyn aelodau neu gan Swyddog yn erbyn aelodau neu gan y Cyhoedd yn erbyn y Cyngor neu ei aelodau neu lle mae'r Cod Ymddygiad wedi ei anwybyddu ac ati.

***3. Cronfa Mân-gymorthdaliadau***
Adroddwyd i'r Clerc osod hysbyseb ar y Wefan, gyda'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau ar y 5ed o Ionawr er mwyn eu trafod ymhen yr wythnos yng nghyfarfod mis Ionawr (12.01.22). Gofynnwyd i'r aelodau atgoffa unrhyw rai a allai fod yn gymwys i wneud cais.

***4. Arolwg Ail-gartrefi a Llety hunan-ddarpar (Air B&B)***
Yn dilyn y penderfyniad i ymateb i Ymgynghoriad Trethi Lleol, holwyd a oedd yr aelodau wedi cael cyfle i gasglu tystiolaeth am y nifer o gartrefi a oedd yn cael eu defnyddio fel ail gartrefi neu ar gyfer eu gosod ar gyfer gwyliau? Bydd rhaid cael y wybodaeth erbyn y cyfarfod nesaf.

***5. Cyllideb / Praesept***
Atgoffwyd yr aelodau y bydd angen gosod Cyllideb yn y cyfarfod nesaf er mwyn anfon swm y Praesept a benderfynnir i CG cyn diwedd Ionawr. Gofynnwyd am unrhyw syniadau buddsoddi ar gyfer y cyfarfod nesaf.

***6. Cynllun Cyfaill***
Penderfynwyd bod yn barod i ail afael yn y Cynllun Cyfaill, pe bai cynnydd sylweddol yn nifer y bobl yn dioddef o'r Covid a phe bai yna benderfyniad gan y Llywodraeth i gyfyngu ar symudiadau.

**7. Gohebiaeth**
***1. CG – Grantiau Bwyd***
Llythyr oddi wrth CG yn nodi fod grantiau newydd ar gael ar gyfer grwpiau cymunedol a fyddai am baratoi cynlluniau bwyd. Gallai'r arian fynd at Fanciau Bwyd, cynnal Cynlluniau Bwydo, cynnal Cynlluniau Darparu Pecynnau Bwyd (y ddau gynllun olaf ar gyfer yr hyn a elwir yn bobl fregus). Y cysylltiad yw Rhian Elin George yn CG.

***2. CG – Grant Oed Gyfeillgar***
Grant fyddai'n cynorthwyo pobl hŷn i ail gysylltu â'u cymuned ar ôl Covid-19. Y cymorth ar gael ar gyfer ystod eang o gymdeithasau, capeli neu eglwysi ac ati. Cyswllt: Mirain Llwyd Roberts yn CG.

***3. Cyfarfod LleChi***
Manylion am gyfarfod Rhagfyr ac am swydd a hysbysebir yn yr Amgueddfa Lechi fel Rheolwr Prosiect.

***4. CG - Cau Ffordd***
Rhybudd y bydd Ffordd Osgoi Llanberis yn cau o ddechrau Ionawr ar gyfer gwaith yn gysylltiedig â'r orsaf drydan. Y dyddiad yw'r 10fed o Ionawr 2022.

***5. Llywodraeth Cymru (LlC)***
Nodyn i ddweud fod LlC wedi cyhoeddi diweddariad i'w Rhaglen Llywodraethu yn dilyn arwyddo Cytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru.

***6. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE)***
Nodyn yn dweud fod APCE yn cychwyn ar gynllun/prosiect newydd i reoli 14 Ardal Cadwraeth Eryri. Yn eu plith mae canol pentre Nantperis. Mae swyddogion yn gysylltiedig â'r Cynllun yn awyddus i gyfarfod â'r Cyngor. Cytunwyd iddynt ddod i gyfarfod mis Ionawr ac i ddechrau'r cyfarfod am 6.30.

**7. Cynllunio**
**CG:** • C21/1140/15/LL – Y Berllan, Ffordd Capel Coch, Llanberis.
*Cais ar gyfer codi byngalo dormer, lledu'r fynedfa bresennol ynghyd â darparu llecynnau parcio* – **dim gwrthwynebiad.**

**8. Adroddiadau allanol:**
Cafwyd adroddiad gan y Clerc iddo fynychu **Cynhadledd Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035** ar lein. Trafodwyd effaith twristiaeth ar yr ardal, o fewn y Parc yn benodol, gan roi cryn sylw i'r lles economaidd a ddaw o dwristiaeth. Hynny yn bennaf gan y siaradwyr a wahoddwyd i annerch. Roedd eraill o'r llawr mewn grwpiau wedyn yn amau peth o'r hyn a ddywedwyd, gan dynnu sylw at or-dwristiaeth a'r sgil effeithiau anfoddhaol sydd wedi dod i'r amlwg yn ddiweddar. Prin oedd y sylw a gafodd 'bod yn gynaliadwy' a sut mae gwneud hynny. Eto, roedd y ffaith i dros gant o bobl fod yn bresennol yn dangos fod hwn, ym marn llawer, yn bwnc pwysig a bydd mwy o gyfle i drafod yn y flwyddyn newydd.

AVW
ADVANCED VEHICLE WORKSHOP
Arbenigwyr mewn ceir VW
Audi, Seast, Skoda a Porche
Gwasanaeth Lleol, Cyfeillgar a Phroffesiynol ers 1975
Which? Trusted trader
01286 673559
BOSCH Service
Parth 2, Stad Ddiwidiannol Cibyn, Caernarfon, LL55 2BD - www.AVWBosch.co.uk

# Y Tlysau yn dal i ddod



Llongyfarchiadau i garfan pêl-droed dan 10 oed Bethel am gipio tlws arall. Yn ystod y cyfnod anodd yma, dan reolau llym ac angenrheidiol, bu clybiau'r gynghrair yn ymgiprys am gwpan Siop Hamper, Penygroes. Yn y ddwy rownd gyntaf, cafwyd buddugoliaethau yn erbyn Llanrug (6-0) a Phenrhosgarnedd (5-0). Yn y rownd gyn-derfynol, mewn chwip o gêm, trechwyd Porthaethwy (5-3). Yr hen elyn Cofis Segontium oedd y gwrthwynebwyr yn y rownd derfynol. Doedd mur amddiffynnol Segontiwm ddim digon cryf, a Bethel aeth â hi o 3 gôl i 0. Ymysg y cefnogwyr roedd Merfyn (Tryfan Cabs) ac roedd wrth ei fodd. Mae'r cwmni, drwy Merfyn, wedi noddi'r garfan hon bob tymor ers iddynt gychwyn fel tîm dan 6 oed. Llawer o ddiolch, Merfyn. Llongyfarchiadau hefyd i Graham sydd wedi llwyddo i gael y garfan hon i chwarae pêl-droed celfydd ac effeithiol iawn.

Bu raid i'r garfan dan 8 oed deithio draw i Lannau Dyfrdwy i ymgiprys am dlws Twrnamaint Clwb Airbus wythnos cyn y Nadolig. Roedd hwn yn dwrnamaint o dimau profiadol a phluen yn het yr hogiau oedd iddynt gyrraedd y rownd derfynol mewn twrnamaint cryf. Ac er mai colli o 1 i 0 wnaethant, braf oedd gweld y gwenu: rhaid dysgu sut i golli cyn blasu gwir lwyddiant. Roedd y bonws o ymweld â *Flipart* yng Nghaer cyn dod adref gyda'u medalau wedi plesio'n arw.

Mae'r rhestr gemau ar gyfer y carfannau, o dan 6 oed i dan 13 oed, wedi eu trefnu bellach ar gyfer yr ail-gychwyn yn y gwanwyn. Diolch i Andrew a Stephen Williams am eu horiau dygn o waith yn cynnal safon y meysydd dros y cyfnodau clo yma. I ddenu'r sgiliau gorau, rhaid cael wyneb da i'r maes. Diolch i'r ddau ohonoch.

Mae croeso i chwi bentrefwyr fentro draw i Gae Top i gefnogi. O hyn ymlaen, bydd paned a lluniaeth ysgafn hefyd ar gael gan fod y gegin bellach wedi ei gosod yn adeilad y Clwb.



ECO'r Wyddfa

**Hoffech chi hysbysebu eich busnes yma?**

Cysylltwch â'n Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu

Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug
01286 673838
hefsj@aol.com

AM WASANAETH PERSONOL A GOFALUS

**DYLAN GRIFFITH**

*Trefnwyr Angladdau Annibynnol a Lleol*

TROS Y WAEN PENISARWAEN

Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu yr Holl Ardal
Busnes Teuluol

*Ffôn : 01286 871833 (SYMUDOL: 07778127394)*

Gwaith Coffaol
**LLANRUG**

Y Sgwâr
Llanrug
Caernarfon
Gwynedd
LL55 4AA

☎ 01286 672898

# Gwledd o Chwaraeon yn 2022

Gyda blwyddyn arall wedi mynd heibio fel y gwynt, mae digonedd o ddigwyddiadau chwaraeon i edrych ymlaen atynt yn 2022. Gobeithio'n wir na fydd Covid yn cael gormod o effaith y flwyddyn yma ac y bydd modd i bawb fwynhau eu hunain a chael bod yn rhan o'r bwrlwm. Mi all pobl edrych ymlaen at y cystadlaethau a digwyddiadau sy'n digwydd yn flynyddol, megis Cwpan yr FA, Cynghrair y Pencampwyr, Chwe Gwlad, Wimbledon, Y Meistri a'r Grand National a'r Tour de France, i enwi rhai. Ond mae yna ddigwyddiadau ychwanegol i edrych ymlaen atyn nhw eleni. Yn ychwanegol at y wledd o chwaraeon rheolaidd, byddwn hefyd yn cael gweld Gemau Olympaidd a Pharalympaidd y Gaeaf, Ewros y Merched, Gemau'r Gymanwlad ac wrth gwrs Cwpan y Byd. Mae 2022 yn edrych fel blwyddyn gyffrous iawn i unrhyw un sy'n hoff o chwaraeon!

## Gemau Olympaidd y Gaeaf

Bydd Gemau Olympaidd y Gaeaf yn cael eu cynnal rhwng y 4ydd o Chwefror a'r 20fed o Chwefror yn Beijing, China. Beijing yw'r ddinas gyntaf i gynnal Gemau Olympaidd a Gemau Olympaidd y Gaeaf. Bydd 109 o gystadlaethau i gyd, mewn 15 disgyblaeth gwahanol, yn cynnwys Hoci Iâ, Sgïo, Bobsleigh ac Eirafyrddio. Yn y Gemau diwethaf, cafodd Team GB 5 medal, ac felly byddant yn gobeithio mynd gam ymhellach eleni dwi'n siwr. Yn 17 mlwydd oed, Kirsty Muir o Aberdeen fydd cystadleuydd ifanca Team GB, ac mi fydd hi'n cystadlu yn y 'Freestyle Skiing'. Mae Team GB yn gobeithio mynd ag oddeutu 50 o gystadleuwyr i Beijing.

BEIJING 2022

## Gemau Paralympaidd y Gaeaf

Beijing fydd lleoliad Gemau Paralympaidd y Gaeaf hefyd, ac mi fydd y rhain yn cael eu cynnal rhwng y 4ydd a'r 13eg o Fawrth. Mi fydd 78 cystadleuaeth i gyd, mewn 6 disgyblaeth gwahanol: Sgïo Alpaidd, Biathlon, Sgïo Traws-gwlad, Hoci Iâ, Eirafyrddio a Cyrlio Cadair Olwyn. Mae'n debyg mai 14 gwlad sy'n bwriadu cystadlu, yn cynnwys Team GB. Mi fydd oddeutu 20-25 cystadleuydd yn mynd fel rhan o Team GB.

## Ewros y Merched

Yn ystod yr haf, rhwng y 6ed a'r 31ain o Orffennaf, fe fydd cystadleuaeth Ewros y Merched yn cael ei chynnal yn Lloegr. Roedd y gystadleuaeth yma i fod i gael ei chynnal y llynedd, ond oherwydd Covid fe gafodd ei gohirio tan y flwyddyn yma. Bydd 10 lleoliad i gyd, yn cynnwys Wembley, Old Trafford, Bramall Lane a Stadiwm St Mary's. 16 tîm fydd yn cystadlu, ond yn anffodus ni lwyddodd Merched Cymru i hawlio lle yn eu plith. Mi fydd Gogledd Iwerddon yn ymddangos am y tro cyntaf. Bydd 4 grŵp o 4 tîm, a'r ddau dîm gorau ym mhob grŵp fydd yn mynd ymlaen i'r *knockouts.* Mae'n debyg fod Lloegr ymysg y ffefrynnau i ennill, gyda'r Iseldiroedd, Yr Almaen a Sbaen hefyd ymysg y ffefrynnau. Mi fydd y gêm gyntaf rhwng Lloegr ac Awstria yn Old Trafford ar y 6ed o Orffennaf.

UEFA women's EURO ENGLAND 2022

## Gemau'r Gymanwlad

Nesaf ar y calendar fydd Gemau'r Gymanwlad, sy'n cael eu cynnal rhwng yr 28ain o Orffennaf a'r 8fed o Awst yn Birmingham. Am y tro cyntaf erioed, fe fydd mwy o gystadlaethau merched na dynion. Fe fydd 283 o gystadlaethau gwahanol, mewn 20 o ddisgyblaethau. Bydd y rhain yn cynnwys athletau, pêl-rwyd, nofio, beicio, gymnasteg a chriced, gyda chriced merched yn ymddangos am y tro cyntaf. Mae hefyd fwy o bara-chwaraeon nag erioed eleni, ac mae'r cystadlaethau hynny'n rhan o brif amserlen y Gemau. Bydd disgwyl i oddeutu 72 gwlad gymryd rhan, ond hyd yma dim ond 21 sydd wedi cadarnhau eu cyfranogiad, a bydd mwy yn cael eu cadarnhau yn y misoedd nesaf. Nid yw Cymru wedi cadarnhau ei chyfranogiad eto, ond o ystyried fod Cymru yn un o'r chwe gwlad sydd wedi cystadlu ym mhob un o'r Gemau Gymanwlad ers 1930 dwi'n siwr y bydd baner y Ddraig Goch yn cael ei chynrychioli yn Birmingham.

BIRMINGHAM 2022 commonwealth games

## Cwpan y Byd



I orffen blwyddyn lawn dop o chwaraeon, bydd un o gystadlaethau mwyaf y byd, sef Cwpan y Byd. Yn wahanol i'r arfer mae'r twrnamaint yn cael ei gynnal eleni yn ystod misoedd y gaeaf yn hytrach na'r haf. Yn Qatar y bydd y gystadleuaeth yn cael ei chynnal, ac mae'r penderfyniad i'w chynnal yno wedi denu llawer iawn o feirniadaeth am resymau gwahanol. Bydd y gêm agoriadol yn cael ei chwarae ar yr 21ain o Dachwedd, a bydd y twrnamaint yn parhau nes y ffeinal ar y 18fed o Ragfyr. Mi fydd hi'n fis gwych o bêl-droed dwi'n siwr! Mae 8 stadiwm i gyd, mewn 5 gwahanol ddinas, gyda'r stadiwm mwyaf, y *Lusail Iconic Stadium*, yn dal 80,000 o bobl. 32 tîm fydd yn cystadlu, a'r rheiny'n cael eu rhannu i 8 grŵp o 4. Hyd yma, dim ond 13 tîm sydd wedi sicrhau eu lle yn Qatar, gyda 10 o'r rheiny o Ewrop. Y rhai sydd wedi sicrhau eu lle yw Qatar wrth gwrs fel y wlad sy'n cynnal y gystadleuaeth, Brasil, Ffrainc, Yr Almaen, Denmarc, Yr Ariannin, Gwlad Belg, Croatia, Sbaen, Serbia, Lloegr, Y Swisdir a'r Iseldiroedd. Mi fydd yn rhaid i Gymru ddisgwyl nes mis Mawrth i ddarganfod eu tynged. I ddechrau, bydd Cymru'n chwarae gêm gartref yn erbyn Awstria fel gêm gyn-derfynol y gemau ail-gyfle; ac os yn fuddugol mi fyddant wedyn yn mynd ymlaen i chwarae yn y ffeinal yn erbyn Yr Alban neu'r Wcrain. Un ffordd neu'r llall, mi gawn wybod erbyn diwedd mis Mawrth os bydd Cymru'n cystadlu yn Qatar. Dim ond dwy gêm sydd rhwng Cymru a lle yng Nghwpan y Byd! Yn bendant, mi fydd y misoedd nesaf yn ddiddorol iawn wrth i wledydd y byd hawlio eu lle yn Qatar.

**Dyna chi felly, blwyddyn gyffrous iawn o chwaraeon o'n blaenau i edrych ymlaen ati eleni!**

FIFA WORLD CUP Qatar2022

ISSN 2516-7235